

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) – 2018/19



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

43,018 teithiau cylchol a lawrlwythwyd o wefan APCAP	15 mlynedd o gynllun Gwarchod y Parc	Parcmyn Haf – Cyrraedd cynulleidfaoed d newydd ac ymgysylltu â chymunedau	8 cadeiriau olwyn traeth APCAP yn cael eu cynnal mewn lleoliadau lleol
975.5 diwrnodau gwirfoddoli cadwraeth	729 cyflwyniadau i prosiect Arfordir Newidiol	423 pobl yn ymuno mewn gweithgaredda u glanhau traeth	Cynnwys pobl mewn cyfleoedd addurno tŷ crwn newydd yn Gastell Henllys
Creu gwestai byg a gerddi bywyd gwyllt gydag ysgolion lleol	86.92% o Hawliau Tramwy ar agor ac yn hygyrch	95 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cymeradwyo	10,821 pobl sy'n cymryd rhan yn ein rhaglen addysg
1,730 cyfranogwyr yn sesiynau gynllun Dewch i Gerdded	Gweithredu system rheoli dogfennau cynllunio	26,736 KwH o ynni a gynhyrchwyd o baneli ffotofoltäig APCAP	6 Hectarau cynefin peillio newydd gafodd ei greu
622 cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gyflwynir yn Gymraeg	249 o stondinwyr sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau yn ein Canolfannau	Arddangosfa Yr Arfordir yn Oriel y Parc	4,755 pobl yr ymgysylltwyd â hwy drwy weithgareddau cynhwysiant cymdeithasol

Cynnwys	
Cyflwyniad	3
Amcan Llesiant – Llewyrchus	7
Amcan Llesiant – Cydnerth	18
Amcan Llesiant – Iechyd a Lles	25
Amcan Llesiant – Cydraddoldeb	31
Amcan Llesiant – Cymunedau	37
Amcan Llesiant – Diwylliant	43
Amcan Llesiant – Byd Eang	48
Llywodraethu Effeithiol a Chynaliadwyedd Ariannol	
Atodiad 1 – Data Amrywiaeth Cyflogaeth a Gweithlu a Dadansoddiad	56



Craig Nodwydd, Bae Abergwaun

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfraniad a pherfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APACP) yn 2017/18 yn erbyn ei amcanion llesiant. Mae hefyd yn dangos sut yr ydym wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein gwaith, a'r ddogfen hon hefyd yw ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb (gweler Amcan 1, 3, 4, 5, 6 a Atodiad 1.)

Dymunwn ddiolch i'r staff, yr Aelodau, gwirfoddolwyr, partneriaid a chymunedau o fewn y Parc a thu hwnt am ein cynorthwyo i gyflawni'r gweithgareddau a amlygir yn y ddogfen hon.

Yn ystod y cyfnod hwn cyhoeddwyd "Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol" a bydd hyn yn dylanwadu ar waith yr Awdurdod yn y dyfodol.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi yn 1952 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 612 cilomedr sgwâr, ac mae tua 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 o ardaloedd cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchenogaeth breifat a dim ond tua 1% y mae'r Awdurdod yn berchen arno.



Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol annibynnol ac iddo ddiben arbennig, a hynny o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 Aelod, y mae 12 ohonynt wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- ❖ **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- ❖ **Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth fynd ar drywydd y dibenion uchod, i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Bob pum mlynedd mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Rheoli y Parc Cenedlaethol sy'n pennu sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, a hynny nid gan yr Awdurdod yn unig ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn y broses o gael eu hadolygu yn unol â'r amserlenni a'r prosesau adolygu a datblygu perthnasol.

Ein Hamcanion Llesiant a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru

Amcanion Llesiant APCAP	Sut yr ydym yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru
Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.	Yn cyfrannu at 'Gymru Ffyniannus' a 'Chymru Gydnerth' drwy annog datblygu busnesau newydd a'r busnesau sy'n bodoli eisoes mewn modd cynaliadwy, gan hyrwyddo datblygu sgiliau a chefnogi'r diwydiant twristiaeth a hamdden, tra'n sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn modd nad yw'n annog defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol. Dylai cynnal a hyrwyddo asedau twristiaeth yn y Parc, gan gynnwys llwybr yr arfordir, gefnogi 'Cymru Iachach.'

Cydnherth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol	Mae dulliau sy'n seiliedig ar natur ac sy'n annog bioamrywiaeth a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd, a'r polisïau cynllunio a hyrwyddir gan yr Awdurdod, yn cynnal ecosystemau iach yn y Parc sy'n cyfrannu at 'Gymru Gydnerth'. Mae'r Awdurdod yn cefnogi 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' drwy hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar le drwy weithio gyda thirfeddianwyr, gwirfoddolwyr a chymunedau ar warchod y Parc.
Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau	Mae gweithgarwch yn yr awyr agored, megis cerdded, yn gallu gwella'r teimlad o lesiant, lleihau straen a gall fod yn ysbrydoledig. Trwy hybu defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, annog gwirfoddolwyr a dileu rhwystrau i fynediad mae'r amcan hwn yn cyfrannu at greu 'Cymru iachach', 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'.
Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.	Bydd yr Awdurdod yn parhau i annog ystod fwy cynrychiadol o bobl i ymgysylltu a bod yn rhan o waith yr Awdurdod a'r Parc Cenedlaethol, gan gyfrannu at 'Gymru Mwy Cyfartal' a 'Cymru o Gymunedau Cydlynus.' Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i wneud cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o waith a diwylliant yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.
Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.	Mae nifer o gymunedau, cymunedau buddiant megis tirfeddianwyr a grwpiau lleol, a'r rhai sy'n derbyn cymorth gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, eisoes yn cymryd rhan yng ngwaith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu'n benodol at 'Gymru Gydnerth' a 'Chymru â Diwylliant Bywiog.' Drwy gymryd ymagwedd o gydgyhyrchu a datblygu ein gwaith i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd sy'n gynrychiadol o'r gymdeithas, byddwn yn ychwanegu at 'Gymru o Gymunedau Cydlynus'.
Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.	Mae gan Sir Benfro a'r Parc ddiwylliant cyfoethog yn y celfyddydau, treftadaeth a'r iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ei gefnogi gan gyfrannu at 'Gymru o Ddiwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Hefyd mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â chymunedau a gwirfoddolwyr wrth ofalu am safleoedd treftadaeth gan gyfrannu at 'Gymru o Gymunedau Cydlynus' a 'Chymru Gydnerth'.
Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.	Drwy leihau ein hól troed carbon, hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a thrafnidiaeth gynaliadwy o fewn y Parc, gweithio gydag eraill i gefnogi'r amgylchedd Morol ac addysgu pobl am rinweddau arbennig y Parc, mae'r Awdurdod yn cyfrannu at 'Gymru Gyfrifol yn Fyd-eang'.

Hefyd cafodd mesurau a champau gweithredu eu sefydlu ar gyfer llywodraethu a bod yn gynaliadwy yn ariannol i allu cynnal yr Awdurdod i gyflawni'r canlyniadau uchod yn effeithiol yn awr ac yn y tymor hirach

Cyllid

Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar wariant net yr Awdurdod drwy ddyrannu'r Grant Parc Cenedlaethol blynyddol a'r ardoll, a oedd ar gyfer 2018/19 yn £3,887k i lawr o £ 3,940k yn 2017/18. Mae hyn yn dilyn gostyngiad yn y blynyddoedd blaenorol; yn 2014/15, roedd yr Awdurdod wedi derbyn gostyngiad o £349k, neu 7.4%, ac yna gostyngiad pellach o 4.1% yn 2015/16 a 6.04% yn 2016/17. A phan gymhwysir y mynegai prisiau defnyddwyr, mae'r gostyngiad cyffredinol mewn termau gwirioneddol ers 2013/14 yn cyfateb i 23.6% neu oddeutu £ 1.1m. Mae arbedion gweithredol a chynnydd yn yr incwm o werthu nwyddau yn y canolfannau, incwm o'r meysydd parcio a thaliadau eraill ac incwm grant wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd.

Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant

Er mwyn mesur ein perfformiad yn erbyn ein Hamcanion Llesiant mae'r Awdurdod wedi edrych ar gasglu data ar draws nifer o feysydd newydd ochr yn ochr â dangosyddion allweddol a statudol presennol. Bydd y data hwn yn ffurfio llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi perfformiad yn erbyn ein Hamcanion Llesiant yn y dyfodol. Cydnabyddir y bydd angen i'r dangosyddion a ddefnyddir addasu i newidiadau allanol, a bod y dangosyddion hynny yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben wrth i'r data gael ei gasglu a'i gymharu flwyddyn ar ben blwyddyn yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn edrych ar sut y gall ddefnyddio data ansoddol i helpu i ddadansoddi ei gyfraniad a'i berfformiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant i roi dadansoddiad mwy cyflawn.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, a Chynnwys Defnyddwyr. Yn y ddogfen hon drwyddi draw, rhoddir enghreifftiau o sut rydym wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn yn ymarferol.

Yn 2018/19 roedd yr Awdurdod hefyd wedi cwblhau'r "Camau tuag at yr amcanion llesiant - Pecyn Cymorth Hunan-Fyfyrion" Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, ac wedi mynychu gweithdy i helpu gyrff cyhoeddus ddysgu gyda'i gilydd a gwerthuso ymatebion ei gilydd. Er mwyn cymryd hyn i ystyriaeth, mae tabl gwirio taith wedi'i gynnwys o dan pob amcan sy'n nodi ein cyfeiriad teithio tuag at gyflawni'r amcan dan sylw.

Amcan Llesiant – Llewyrchus

Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.



Digwyddiad Celf Traeth Dinbych-y-pysgod

Diogelwr Taith – Ble yr ydym ni nawr?

Cyfeiriad Teithio tuag at gyflawni ein Hamcan					
Blwyddyn	Dechrau Arni	Gwneud Newidiadau Syml	Bod yn fwy Anturus	Yn Berchen ar ein Huchelgais	Arwain y Ffordd
2017/18			✓		
2018/19			✓		

1. Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cydweithio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Cynllun Datblygu Lleol

Yn ystod 2018/19 aeth Cynllun Datblygu Lleol Adnau yr Awdurdod (CDLI) allan i ymgynghori arno, yn unol â'r amserlenni a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun. Dilynwyd hyn gan gam pellach ar newidiadau ffocws oedd yn amlinellu'r newidiadau oedd wedi'u cynnig yn dilyn yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghori ar y cam blaenorol ar y Cynllun Adnau.

Mae'r cynllun yn nodi polisiau cynllunio i roi arweiniad ar lle dylai datblygiadau ddigwydd a lle na ddylent ddigwydd yn y Parc tan 2031. O dan y cynllun, mae parseli o dir yn cael eu dyrannu ar gyfer tai, gan gynnwys tai fforddiadwy. Hefyd mae'r CDLI yn amlygu ardaloedd y dylid eu hamddiffyn rhag datblygu, megis mannau agored, cefn gwlad a'r arfordir. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys polisiau i gefnogi datblygiadau busnes a datblygiadau cymunedol. Mae'r CDLI Adneuo wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Rheoliadau Cynefinoedd, a chafodd y strategaeth a ffefrir hefyd ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori.

Mae'r CDLI Adnau wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a bydd yn dechrau ar ei gyfnod archwilio yn 2019/20.

2. Gwasanaeth Cynllunio Effeithiol

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

89.8%

of all planning applications determined within time periods required in 2018/19, this is an increase on 84.91% in 2017/18 and above the 80% target. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: 99.4%. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 74%.

**69
diwrnod**

oedd yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio yn 2018/19. Mae hyn yn ostyngiad bach ar 70.8 diwrnod yn 2017/18 ac ychydig yn uwch na'r targed llai na 67 diwrnod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: 62 diwrnod. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 67 diwrnod.

3.85%	o benderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion (argymhelliad) yn 2018/19 (1 allan o 26), o'i gymharu â 4.88% yn 2017/18 a llai na'r targed o lai na 5 y cant. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 0.05%
100%	o apeliadau a wrthodwyd yn 2018/19 o'i gymharu â 63.64% yn 2017/18 a mwy na 66 targed.
0	Applications for costs at section 78 appeal upheld in the reporting period against the Authority, o'i gymharu ag 1 yn 2017/18.
1	hawliad am gostau a wnaed gan yr Awdurdod yn erbyn apelydd am apêl a dynnwyd yn ôl yn hwyr yn y broses heb reswm.
94.8%	o geisiadau cynllunio a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig yn 2018/19. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 95.42%.
487	oedd nifer y ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd yn 2018/19, gostyngiad ar 590 o geisiadau a gofrestrwyd yn 2017/18.
80.8%	o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd yn 2018/19, llai na'r targed o 90% ac 85.11% yn 2017/18.
Gweithredu'r system rheoli dogfennau ar-lein	Llwyddwyd yn 2018/19 i gyflawni datblygiad cadarnhaol ar gyfer gwella'r modd y mae'r gwasanaeth cynllunio yn cyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd drwy weithredu system rheoli dogfennau ar-lein. Mae'r system bellach yn fyw ac mae ceisiadau ar gael i'r cyhoedd gael golwg arnynt ar-lein.
Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynnyddol - Datblygu Cynaliadwy	Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn cyflwyno adroddiad ar ein perfformiad ym maes cynllunio i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys ein perfformiad yn erbyn Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, ac mae hyn yn rhoi cyfle i ni roi cyddestun i'n perfformiad yn y meysydd hyn. Mae'r mesurau yn cynnwys caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu economaidd newydd ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd, a chaniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel.

3. Denu ymwelwyr a darparu cynnig cadarnhaol i ymwelwyr yn ein canolfannau.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Castell Caeriw - Datblygiad Caffi a Gardd Furiog	Agorwyd Ystafell De Nest a redir gan yr Awdurdod fis Gorffennaf 2018 yng Nghastell Caeriw, y cyntaf mewn cyfres o welliannau yn y Castell.. Mae Nest yn ystafell de fodern, olau a chartrefol yn yr Ardd Furiog ger mynedfa'r Castell. Yn ogystal â chynnig cynnyrch lleol, bydd yr ystafell de hefyd yn osgoi
---	--

	defnyddio plastig untro lle y bo hynny'n bosibl, ac fe fydd yr holl ddeunydd pecynnu, gan gynnwys cwpanau tecawê, yn gompostadwy neu'n ddiraddiadwy. Mae datblygiad Ystafell De Nest, wedi creu naw swydd. Mae'r cam olaf yn y gwaith o wneud gwelliannau a thirweddu yng Ngardd Furiog Castell Caeriw ar y gweill ar hyn o bryd, a bydd yr Ardd yn agor fis Gorffennaf 2019.
129,004	Ymwelwyr i Oriel y Parc yn 2018/19, o'i gymharu â 127,205 yn 2017/18, cynnydd o 1.4%.
45,538	Ymwelwyr i Gaeriw yn 2018/19, mae hyn yn cymharu â 47,710 yn 2017/18, gostyngiad o 4.8%.
18,612	Ymwelwyr i Gastell Henllys yn 2018/19, mae hyn yn cymharu â 21,428 yn 2017/18, gostyngiad o 13%.
Sut mae hyn yn cymharu ag atyniadau eraill	Mae ffigurau safleoedd Amgueddfa Cymru – National Museum ar gyfer 2018/19 yn dangos cynnydd yn y nifer yr ymwelwyr ar gyfer y safleoedd canlynol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (5.07%), Sain Ffagan (19.9%), Pwll Mawr (0.68%) a'r Glannau Abertawe (3.8%) a gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr ar y safleoedd canlynol Amgueddfa'r Llen Rhufeinig (-33%), Amgueddfa Wlân (-2.82%) ac Amgueddfa Llechi (-5.42%). ¹

Cyfleoedd Gwella: Gweledigaeth Hirdymor ar gyfer Canolfannau

Bwriad yr Awdurdod yw cychwyn proses yn 2019/20 o ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer pob un o ganolfannau'r Parc drwy gychwyn y broses o ddatblygu cynlluniau 5 mlynedd ar gyfer pob safle. Mae'r Awdurdod wedi penodi Rheolwr Ymwelwyr ar wahân ar gyfer Castell Henllys ac Oriel y Parc, lle'r oedd y swydd yn flaenorol yn cael ei rhannu.

4. Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a hyrwyddo'r Parc fel cyrchfan

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cydweithio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

342,780	Defnyddwyr y wefan a 1,301,963 dudalennau'r agored yr edrychwyd arnynt am wefan APACP.
42,135	o ddilynwyr ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn 2018/19 o'i gymharu â 37,448 yn 2017/18.
14	o drwyddedau ffilmio wedi'u rhoi gan APCAP yn 2018/19, yr un nifer ag yn 2017/18. Derbyniwyd 65 o ymholiadau ffilmio yn ystod y cyfnod hwn.
Datblygu gwefan	Er mwyn gwella'r hyn a gynigiwn ar-lein, roedd yr Awdurdod yn 2018/19 wedi gwahodd tendrau am ddatblygu gwefan newydd.

¹ Amgueddfa Cymru – National Museum Wales: https://museum.wales/visitor_figures/

APACP newydd	Dechreuodd y gwaith technegol o adeiladu'r wefan a phennu cynnwys y safle yn 2018/19 gyda'r nod bod y wefan newydd yn mynd yn fyw yn 2019/20. Bydd y wefan newydd yn ymatebol ac yn galluogi pobl i gael profiad cadarnhaol fel defnyddiwr pa ddyfais bynnag y maent yn edrych ar y wefan.
Coast to Coast	The Authority has continued to provide information to visitors and local communities of events and activities going on in the Park through its Coast to Coast publication. This publication is distributed to venues across Pembrokeshire and is also available online through the Coast to Coast App. Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr ac i'r cymunedau lleol am ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn y Parc drwy'r cylchgrawn Coast to Coast. Caiff y cyhoeddiad hwn ei ddosbarthu i leoliadau ar hyd a lled Sir Benfro, ac mae'r cylchgrawn hefyd ar gael ar-lein drwy'r App Coast to Coast.

5. Gweithredu dulliau newydd o gyflwyno gwybodaeth ac ymgysylltu ag ymwelwyr yn ne a gogledd y parc.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cydweithio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Parcmyn Haf – Gogledd a De	Roedd ymestyn y cynllun Parcmyn Haf i gynnwys Gogledd y Parc yn ogystal â De'r Parc yn nhymor yr haf 2018/19 wedi bod o gymorth i'r Awdurdod estyn allan at gynulleidfaoedd newydd. Roedd y Parcmyn wedi gallu rhoi gwybodaeth a threfnu gweithgareddau yn y fan a'r lle, gan gynnwys ar y traethau, a datblygu cysylltiadau cadarnhaol â busnesau lleol.
Gweithdai	Yn 2018/19 comisiynodd yr Awdurdod dri gweithdy wedi'i hwyluso gan Dwristiaeth Sir Benfro ar draws Gogledd Sir Benfro a anelwyd yn benodol at fusnesau twristiaeth i ddeall sut y gallwn gefnogi'r fasnach dwristiaeth drwy ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr.
6	sesiynau hyfforddiant Golwg ar y Parc (Parkwise) a gynhaliwyd yn 2018/19, gyda 54 o fynychwyr. Yn 2017/18 cyflwynwyd 4 sesiwn gyda 56 yn bresennol ar draws pob sesiwn.

Yn 2018/19 cyflwynwyd sesiynau Golwg ar y Parc i:

Busnesau Lleol yn
Hostel Ieuenctid
Broad Haven

3 Sesiwn ar gyfer
staff Llyfrgell a
CWID CSP

Cwmni Bwyd
Traeth Sir Benfro

Staff Gwirfoddol
CWID Casnewydd

Cyfleoedd Gwella: Cynyddu'r gallu i ddarparu sesiynau Golwg ar y Parc (Parkwise)

Mae'r Awdurdod wedi bod yn ymgysylltu â busnesau a sefydliadau mewn cymunedau i ddod yn llysgenhadon i'r Parc trwy ei sesiynau Golwg ar y Parc. . Cynhaliwyd mwy o sesiynau Golwg ar y Parc yn ystod 2018/19 nag yn 2017/18 ond ni chyrrhaeddwyd y targed o ddarparu 10 sesiwn. Mae'r gwaith hwn wedi'i yrru a'i gyflawni'n bennaf gan y Swyddog Dehongli gyda chefnogaeth cydweithwyr. Dylai cynyddu capasiti drwy hyfforddi staff a gwirfoddolwyr eraill i gyflwyno sesiynau yn 2019/20 helpu i gynyddu nifer y sesiynau a ddarperir a chynyddu'r nifer all elwa o'r cynllun Golwg ar y Parc/Parkwise.

6. Cydweithio ag eraill i gefnogi'r cynnig twristiaeth leol.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cydweithio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Llwybr Arfordir Cymru	Mae'r Awdurdod wedi bod yn cyflwyno ymgyrch farchnata genedlaethol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru trwy gydol 2018/19 ar ran Llywodraeth Cymru a Chroeso Cymru.
Llwybrau Celtaidd	Mae'r Awdurdod yn rhan o brosiect tair blynedd a ariennir gan INTERREG rhwng Gorllewin Cymru a Dwyrain Iwerddon gyda'r nod o gynyddu ymweliadau gan dwristiaid rhwng y ddwy wlad â ffocws penodol ar Ogledd Sir Benfro.
Ail Ddarganfod Cysylltiadau Hynafol	Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan yn y prosiect partneriaeth a ariennir gan grant Ailddarganfod Cysylltiadau Hynafol a lwyddodd i gael cyllid yn 2018/19. Mae'r prosiect yn cyflawni rhaglen tair blynedd o weithgareddau treftadaeth, diwylliant, y celfyddydau a gweithgaredd cymunedol gyda'r nod o gynyddu ymweliadau tramor â Gogledd Orllewin Sir Benfro a Swydd Wexford, Iwerddon.
Partneriaethau Strategol – Rheoli Cyrchfannau	Mae'r Awdurdod wedi parhau yn 2018/19 i ymgysylltu â phartneriaid perthnasol ynghylch datblygu dulliau strategol o reoli a marchnata cyrchfannau yn Sir Benfro yn y dyfodol. Bu'r Partneriaeth Cyrchfan Sir Benfro yn cynnal digwyddiad o ymgysylltu â'r diwydiant yn Nhŵr-y-Felin yn Nhyddewi fis Chwefror 2019 gyda'r nod o roi hwb i ddulliau newydd. Canlyniad y digwyddiad hwn oedd gwneud cais am arian LEADER i ariannu cyngor ymgynghori arbenigol i gomisiynu gweledigaeth a chynllun busnes ar ei newydd wedd ar gyfer Partneriaeth Cyrchfan Sir Benfro, a mabwysiadu strategaeth cyrchfan cyn-derfynol i helpu i gadw ffocws strategol ar gyfer cyflawni twristiaeth yn ystod cyfnod o newid.

Gweithio gydag amgueddfa, llyfrgell a gwirfoddolwyr lleol	Yn 2018/19 mae'r Awdurdod wedi rhoi cymorth ariannol a staff i helpu i ymgorffori gwybodaeth am y Parc Cenedlaethol yn y cyfleusterau yn llyfrgell Glan-yr-afon yn Hwlfordd. Mae Cyngor Tref Trefdraeth bellach yn prydlesu'r adeilad ar Stryd Hir yn Nhrefdraeth lle mae gwasanaeth newydd i ymwelwyr bellach ar agor i'r cyhoedd (gyda chymorth gwirfoddolwyr lleol). Mae trefniadau partneriaeth mwy ffurfiol bellach ar waith gydag Amgueddfa Dinbych-y-pysgod i ddarparu gwybodaeth leol i ymwelwyr.
--	---

7. Hyrwyddo a helpu pobl i werthfawrogi rhinweddau arbennig y Parc.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cydweithio.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Digwyddiadau awyr dywyll/ Blwyddyn y Môr):	
7,425	O bobl mynychodd ddigwyddiadau a gweithgareddau ar thema Blwyddyn y Môr a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 4,593 mynychwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau ar thema Blwyddyn y Chwedlau yn 2017/18.
423	O bobl cymerodd rhan mewn gweithgareddau glanhau traeth a hwyluswyd gan yr Awdurdod yn 2018/19. Roedd hyn yn golygu cynnwys disgyblion ysgol yn y gwaith o lanhau'r traethau ac yn y gweithgareddau Blwyddyn y Môr.
Parcmyr Haf	Bu parcmyr haf yr Awdurdod yn ymgysylltu â phobl yn ystod digwyddiadau ehangach Blwyddyn y Môr megis Cragen Theatr Byd Bychan yn ymweld â Thraeth y De yn Ninbych-y-pysgod ac Abergwaun. Hefyd cafodd pobl gyfle i gymryd rhan mewn creu gosodiadau celf tywod ar Draeth y Gogledd yn Ninbych-y-pysgod.
1	Gweithdy wedi'i ddarparu ar gyfer Cyngorau Cymunedol ar Awyr Dywyll a'r Parc. Mae'r Awdurdod yn edrych i ddatblygu prosiect a fydd yn ymgysylltu â chymunedau lleol i nodi materion a phryderon ynghylch goleuo a helpu i godi ymwybyddiaeth am fuddion uniongyrchol ac anuniongyrchol awyr nos dywyllach.
319	o fynychwyr yn nigwyddiadau awyr dywyll yn 2018/19 ar draws 18 o ddigwyddiadau. Mae hyn yn cymharu â 368 o bobl yn mynychu ar draws 27 o ddigwyddiadau awyr dywyll yn 2017/18.

Roedd y digwyddiadau yn cynnwys cyfleoedd i fwynhau'r awyr dywyll ac i ddysgu am greaduriaid sy'n elwa o amgylcheddau awyr dywyll:

Stagbwll yn y Gwyll

Sylwi i'r Ystlumod ym Mhalas yr Esgob

Sylw i'r Ystlumod yn Carew


8. Darparu profiad cadarnhaol i ymwelwyr ar gyfer Llwybr Arfordir Sir Benfro a Hawliau Tramwy Mewndirol yn y Parc.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cydweithio.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy	Cymeradwywyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018/28 gan Gyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2018/19. Nod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yw arwain y gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn strategol drwy wneud gwelliannau i ddiwallu anghenion cerddwyr, beicwyr, marchogion a phobl anabl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Penfro dros y ddwy flynedd ddiwethaf i baratoi'r Cynllun olynol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft ar gyfer Sir Benfro rhwng mis Mai a mis Awst 2018.
Ffyrdd Newydd o Weithio - Prosiect Parc Digidol	Mae'r Awdurdod wedi caffael system ac wedi gwneud gwaith paratoi i'w alluogi i ddatblygu prosiect parc digidol, a'r bwriad yw treialu'r prosesau a'r feddalwedd gyda'r timau Wardeniaid yn 2019/20. Nod y prosiect hwn yw gwella systemau 'swyddfa gefn' ar gyfer y Wardeniaid a'r timau cysylltiedig, mewn meysydd megis cofnodi gwaith, casglu data ac amserlennu drwy broses digideiddio a symleiddio
5	Sgôr gyffredinol Trip Advisor (1-5) - Llwybr Arfordir Penfro yn 2018/19 ac yn unol â'r targed. Ni fu unrhyw newid o'r sgôr o 5 yn 2017/18.
86.92%	o hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac yn hygyrch ac yn bodloni'r safon ansawdd yn 2018/19. Mae hyn yn gynydd ar y ffigur 2017/18 o 85.81% ac yn uwch na'r targed o 85%.

Pryderon ynghylch safonau hawliau tramwy cyhoeddus



Gwneud Gwahaniaeth- Pont llwybr ceffylau Coed Canaston

Yn 2018/19 cafodd pont o'r 19eg ganrif yng Nghoed Canaston ei hatgyweirio'n helaeth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro diolch i gyllid gan Bluestone National Park Resort. Yn ogystal â'r gwaith atgyweirio ar y prif strwythur, roedd y prosiect hefyd yn cynnwys gwelliannau draenio a gwelliannau i arwyneb y llwybrau troed sy'n arwain at y bont. Gwnaeth saer maen lleol waith atgyweirio ar y bwa, ailbwyntiodd wyneb y garreg ac ailadeiladodd y ddau barapet. Gwnaed rhagor o waith atgyweirio gan contractwr lleol a Wardeniaid Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae Bluestone yn gwneud cyfraniad blynyddol at welliannau i fynediad cyhoeddus yn Sir Benfro fel amod ar y caniatâd cynllunio gwreiddiol a ddyfarnwyd i'r parc gwyliau. Mae'r cyllid hwn yn cael ei weinyddu ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

9. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy trwy weithio ar y cyd ag eraill..

Ffyrdd o Weithio: Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Ffyrdd Newydd o Weithio – Diogelwch Ymwelwyr

Yn 2018/19 cafodd dogfen ei hysgrifennu oedd yn rhoi canllawiau ar ddiogelwch ymwelwyr, a threialwyd yr asesiad risg newydd o ddiogelwch ymwelwyr yn llwyddiannus yng Nghastell Henllys. Bydd y templed nawr yn cael ei lansio i'w ddefnyddio ar draws y safleoedd eraill. Mae is-grŵp diogelwch ymwelwyr o'r grŵp iechyd a diogelwch wedi'i sefydlu i gynorthwyo a monitro'r modd y mae'r broses asesu risg newydd yn cael ei gweithredu.

Canllawiau Digwyddiadau

Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i ddatblygu canllawiau ar reoli digwyddiadau i gynorthwyo i reoli digwyddiadau mawr yn gynaliadwy yn y sir. Bydd y canllawiau i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Penfro. Hefyd mae'r Awdurdod wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydlynnydd digwyddiadau allanol fydd yn cynorthwyo ymhellach gyda'r gwaith yn y maes hwn yn 2019/20.

Parcmon Castellmartin

Mae Parcmon Castellmartin wedi parhau i gysylltu â gweithio gyda grwpiau hamdden, gan gynnwys hwyluso cyfarfodydd blynyddol.

Gwneud Gwahaniaeth – Canllawiau Drôn

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2018/19 wedi rhyddhau canllawiau newydd ar gyfer defnyddwyr dronau hamdden er mwyn ceisio cyfyngu ar yr aflonyddwch y gall y dyfeisiau ei achosi i fywyd gwyllt gwarchodedig. Yn ogystal ag ailadrodd cyngor diogelwch cyffredinol o God Dronau yr Awdurdod Hedfan Sifil, bydd y canllawiau'n helpu defnyddwyr dronau hamdden neu Gerbydau Awyr Di-

beilot (UAV) i ddeall yr effaith y gallai eu defnyddio ei chael ar rywogaethau prin ac ar fwynhad pobl eraill o fyd natur.

Paratowyd yr arweiniad ar y cyd â phartneriaid, gan gynnwys gweithredwyr dronau masnachol, Fforwm Arfordir Sir Benfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Penfro.



10. Datblygu sgiliau a chefnogi busnesau lleol

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Integreiddio. Cydweithio.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

17	o sesiynau lleoliad profiad gwaith a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn 2018/19.
Llwybrau	Fel rhan o'r prosiect Llwybrau mae cyfranogwyr wedi gallu mynychu gwahanol fathau o hyfforddiant a gweithdai gan gynnwys cwrs hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded, ffotograffiaeth sylfaenol, a gweithdy sy'n canolbwyntio ar adnabod ymlusgiaid. Mae hyn law yn llaw â datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a hyder drwy gymryd rhan mewn sesiynau gwirfoddoli ymarferol a hwylusir gan y prosiect Llwybrau. Mae o leiaf un gwirfoddolwr wedi mynd ymlaen i gael gwaith o ganlyniad uniongyrchol i gymryd rhan yn y prosiect tra bod sawl un arall wedi ennill sgiliau, gwybodaeth a phrofiad fydd yn cyfrannu at eu posibiladau o gael gwaith. Mae'r tîm prosiect Llwybrau wedi datblygu rhaglen

	hyfforddiant/cwrs byr fydd yn dechrau fis Ebrill 2019.
BGC – Fframwaith Trawsnewid Cyflogaeth	Mynychodd Prif Weithredwr yr Awdurdod gyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar leoliadau profiad gwaith a'r cynnig yn Sir Benfro. Fel rhan o fframwaith trawsnewid cyflogaeth y BGC mae cynllun lleoli profiad gwaith yn cael ei ddatblygu gan Goleg Sir Benfro a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn dylanwadu ar ddull yr Awdurdod yn y dyfodol, a thrafodwyd y mater mewn cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod hefyd yn chwilio am gyfleoedd cyllido i gyflawni prosiect dilynol i'w brosiect llwyddiannus Sgiliau ar Waith.
Digwyddiad Gyrfaoedd	Yn 2018/19 bu'r Awdurdod yn mynychu dau ddigwyddiad ar yrfaoedd oedd wedi'u hanelu at ddisgyblion blwyddyn 9 ac 11, a fynychwyd gan ddisgyblion amrywiol ysgolion.
46.44%	o wariant yr Awdurdod a wariwyd yn lleol (Cod Post SA) yn 2018/19. Mae hyn yn ostyngiad o 53.78% yn 2017/18.
96.33%	o anfonebau a dalwyd ar amser (cyfartaledd) yn 2018/19, llai na'r targed o 97% a 97.22% yn 2017/18. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: 93.3%. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 98.85%.
249	o stondinwyr sy'n cyfranogi mewn ffeiriau a digwyddiadau lleol yn ein canolfannau yn 2018/19, mae hyn yn cymharu â 265 yn 2017/18.
23	o Artistiaid/ Gwneuthurwyr Crefftau a gefnogwyd trwy'r canolfannau yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 25 yn 2017/18.

Gwneud Gwahaniaeth: Llwybr Arfordir Cymru – Pecyn Marchnata ar Gyfer Busnesau

Mae'r Awdurdod, trwy gyflawni Prosiect Llwybr Arfordir Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chroeso Cymru, wedi creu pecyn Offer Marchnata ar gyfer busnesau.. Mae'r pecyn wedi cael ei gynllunio i helpu busnesau arfordirol farchnata eu busnesau drwy ddefnyddio dylanwad Llwybr Arfordir Cymru. Mae'n adnodd ar-lein sydd am ddim ac yn hawdd i'w ddefnyddio, ac mae'n rhoi mynediad i ystod eang o ddeunydd a gwybodaeth i fusnesau mewn un lle. Mae'n rhoi mynediad at ffotograffau penodol o Lwybr Arfordir Cymru – sy'n ddelfrydol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol a gwefannau, syniadau defnyddiol ynghylch creu cynigion cerdded arbennig a chynghor defnyddiol ynghylch sut i gyrraedd eu cwsmeriaid gan ddefnyddio gwahanol sianeli hyrwyddo. Yn ystod mis Mawrth 2019, roedd cyfres o seminarau am ddim mewn lleoliadau allweddol ar arfordir Cymru er mwyn cyflwyno'r pecyn i'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch.

Amcan Llesiant – Cydnerth

Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol



Merlod mynydd Cymreig yn helpu i gadw cynefinoedd arfordirol yn agored a chyfoethog mewn bioamrywiaeth.

Diogelwr Taith – Ble yr ydym ni nawr?

Cyfeiriad Teithio tuag at gyflawni ein Hamcan

Blwyddyn	Dechrau Arni	Gwneud Newidiadau Syml	Bod yn fwy Anturus	Yn Berchen ar ein Huchelgais	Arwain y Ffordd
2017/18			✓		
2018/19			✓		

1. Cynnal a gwella cadernid ecosystemau'r Parc a'r ecosystemau ehangach.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cydweithio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19: (Gwarchod y Parc):

100%

o safleoedd rheoli cadwraeth yn unol â'u cynllun rheoli yn 2018/19, yr un peth ag yn 2017/18 ac yn unol â'r targed o 100%.

4,323

Hectar o waith cynnal a chadw wedi'i wneud trwy Warchod y Parc gyda'r nod o ddod â budd i gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 4,320 yn 2017/18.

	7% o'r Parc Cenedlaethol.
463	Hectar o eiddo a berchnogir neu a brydlesir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli ar gyfer Bioamrywiaeth yn 2018/19. Mae hyn yr un peth ag yn 2017/18.
1,110	Hectar o dir yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 1,107 yn 2017/18.
2,750	Hectar o dir mynediad lle mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cefnogi partneriaeth rheoli tir comin yn 2018/19. Mae hyn yr un peth ag yn 2017/18.
2	Cytundebau newydd a wnaed trwy warchod y Parc yn 2018/19. Mae hyn yn ychwanegu at y 7 cytundeb newydd a wnaed yn 2017/18. Mae'r gyllideb cytundebau rheoli bron â'i dyrannu'n llwyr.
6	Hectar yw'r ardal y mae'r cytundebau newydd ar gyfer 2018/19 yn ei chwmpasu. Mae hyn yn ychwanegu at y 55 hecтар a gwmpesir gan y 7 cytundeb newydd a wnaed yn 2017/18.
6	Hectar o gynefinoedd newydd i bryfed peillio wedi'u creu gan Cynllun Gwarchod y Parc yn 2018/19. Mae hyn yn ychwanegu at y 38 hecтар a grëwyd yn 2017/18.
Dolydd	Aeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ati i newid sut roedd yn rheoli nifer o'i safleoedd glaswelltir er mwyn creu cynefinoedd cyfuriog o flodau sy'n addas ar gyfer ystod eang o beillwyr, gan gynnwys gwenyn, glöynnod byw, chwilod a phryfed hofran. Mae gan yr Awdurdod dolydd yng Nghastell Caeriw, Skrinkle Haven, Safle Picnic Mynwar, Maes Awyr Tyddewi, Phorthgain a'i bencadlys yn Doc Penfro. Tua chwe blynedd yn ôl, fe wnaethom adael i'r glaswellt dyfu'n hir yn Llanion er mwyn creu gweirglodd a'i dorri unwaith y flwyddyn. Nawr mae'n cynnwys amrywiaeth enfawr o flodau gwyllt, gan gynnwys taenfa o'r bengaled, y melynnydd cyffredin, y feillionen hopysaidd, y gribell felen a'r feillionen goch

Gwneud Gwahaniaeth: 15 mlynedd o Gwarchod y Parc 2003-2018

Mae Cynllun Gwarchod y Parc yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n dymuno cynyddu gwerth y bywyd gwyllt sydd ar ei dir. Gall helpu'r rhai nad yw'r cynllun amaeth-amgylcheddol cenedlaethol yn addas iddynt neu nad ydynt yn gymwys iddo (er enghraifft, nid ydym yn nodi isafswm maint daliad). Gall hefyd helpu'r rhai hynny sydd mewn cynllun arall yn barod ond sydd angen cymorth ychwanegol i'w gyflawni, er enghraifft ffensio neu gael gafael ar y math iawn o anifeiliaid porth. Mae'n gynllun lleol sy'n ceisio atgyfnerthu ac ategu cynlluniau sy'n bodoli'n barod, yn hytrach na chystadlu yn eu herbyn. Mae'r cyfranogwyr yn amrywio o ffermwyr, tyddynwyr, ymddiriedolaeth natur, hostelau ieuenctid, ysgolion, mynwentydd, grwpiau cymunedol a hyd yn oed cwmni fferi. Mae gan y cynllun dros 100 o safleoedd gweithredol ar hyn o bryd, ond mae wedi cynorthwyo tua 200 ers i'r cynllun gychwyn.

Mae pob safle rydym yn ei gynorthwyo'n cynnwys o leiaf un, a rhagor fel arfer, o'r cynefinoedd/rhywogaethau blaenoriaeth ar gyfer Sir Benfro a nodwyd o dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol. Er hyn, mae'r cynllun yn ceisio bod o fudd i

amrediad llawer ehangach o fywyd gwyllt trwy greu er enghraifft fosaig o gynefinoedd trwy greu strwythur llystyfiant amrywiol dros y safle. Mae'r cynllun hefyd yn targedu safleoedd sydd ar goridorau bywyd gwyllt, neu sy'n gallu helpu i greu coridorau bywyd gwyllt, gan hyrwyddo cysylltedd.

Mae'r cynllun yn hyblyg iawn o ran yr hyn y mae'n ei gynnig i gyfranogwyr ac yn cyflawni hyn trwy gael 'pecyn cymorth' sy'n ceisio mynd i'r afael â'r holl rwystrau y gallai rhywun eu hwynebu wrth geisio rheoli ei dir mewn ffordd sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Rydym yn ymweld â phob safle newydd ac yn asesu ei werth presennol a'i werth posibl i fywyd gwyllt. Rydym yn nodi'r 'cymorth' sydd ei angen er mwyn cynyddu gwerth y safle i fywyd gwyllt ac yn trafod hynny gyda pherchennog y tir.

Adborth a ddarperir yn y llyfryn gan Gyfranogwyr i'r cynllun:

"Rydym wedi bod yn cymryd rhan yn y cynllun rheoli ers blynnyddoedd erbyn hyn. Rydym yn torri ein caeau gwair yn mis Gorffennaf, a thros y blynnyddoedd maent wedi dechrau cynhyrchu amrywiaeth cynyddol o flodau gwyllt. Mae ein gwlyptir yn cael ei bori yn yr haf gan ferlod, ac mae bioamrywiaeth da ar y tir ac yn y pyllau bas newydd."

"Roeddwn i mor falch o glywed am gynllun pori'r Parc Cenedlaethol. Mae fy nghaeau wedi cael eu hesgeuluso ers cymaint o amser, ond mewn llai na blwyddyn mae eu bioamrywiaeth wedi dechrau cynyddu o ganlyniad i bori â Merlod Mynydd Cymreig, sydd hefyd yn werth eu gweld."

"Mae Awdurdod y Parc wedi bod yn adnodd cyfeillgar yn y cefndir - byth yn ymwithol - ond bob amser yn barod i ddod draw a rhoi cyngor. Gyda'n gilydd rydyn ni wedi adfer perthi, plannu coed a blodau gwyllt a gwylio byd natur yn dychweld."

"Yn y gorffennol roedd y rhan fwyaf o'r ardal i'r dwyrain o'r llyn a'r cae cyfagos yn llawn mieri a drain duon, ond mae'r planhigion a'r blodau sydd i'w gweld yno heddiw yn wledd i'r llygad drwy'r flwyddyn. Mae bioamrywiaeth y safle wedi gwella cymaint ac mae'n debyg na fyddem wedi gallu ei reoli heb eich gwybodaeth a'ch cymorth gwerthfawr chi."

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19: (Rhywogaethau goresgynnol):

Pwyth mewn Pryd - Hyfforddiant	Cwblhaodd a phasiodd aelodau Cyngorau Cymunedol Llais Llanychaer a Chwm Gwaun hyfforddiant mewn defnyddio plaladdwyr. Pasiodd gwirfoddolwyr o Grŵp Llwybrau Casnewydd, Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Chymdeithas Gymunedol Llandudoch gyd cwrs deuddydd cymorth cyntaf o bell.
Pwyth mewn Pryd – Cyngor ac Ymgysylltu	Roedd y cynllun Pwyth mewn Pryd wedi parhau i roi cyngor a gwybodaeth am rywogaethau goresgynnol i fusnesau ac i gymunedau yn 2018/19. Gan gynnwys rhoi gwybodaeth i Blanhigfa Johnston a mynychu Sioe Abergwaun i ymgysylltu a meithrin cysylltiadau â thirfeddianwyr.
Pwyth mewn Pryd - Arolwg	Fis Hydref a mis Tachwedd, bu'r Swyddog Prosiect yn gwneud arolwg o'r pla Jac y Neidiwr a chysylltu ag 17 o dirfeddianwyr allweddol yn nalgylch Gors Gupton / Castellmartin fel rhan o adroddiad ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.
57.31	Hectar rhywogaethau ymledol wedi'u gwaredu yn y tarddiad/chwistrellu yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 43.95 yn 2017/18.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Coed):

50	Ceisiadau i wneud gwaith i goed a warchodir y penderfynwyd yn eu cylch yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 57 yn 2017/18.
9	Gorchmynion diogelu coed newydd a wnaed yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 3 yn 2017/18.
Pecyn Cymorth y Cyngor Coed ar y Clefyd Coed Ynn.	Bu'r swyddogion yn mynychu digwyddiad ar y Clefyd Coed Ynn oedd yn lansio Pecyn Cymorth y Cyngor Coed ar y Clefyd Coed Ynn. Nod y pecyn cymorth yw codi ymwybyddiaeth o'r clefyd, helpu i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol, clustnodi arferion gorau o reoli coed nad ydynt yn goetiroedd, a chynghori ar adfer a chreu coedweddau amgen.
65.5	y diwrnodau gwirfoddolwyr a dreuliwyd yn plannu coed yn 2018/19.

2. Cynnwys pobl mewn gweithredoedd sy'n gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

975.5	Diwrnodau gwirfoddoli a gyflawnwyd ar dasgau'n ymwneud â chadwraeth yn 2018/19, o'i gymharu â 914.9 diwrnod yn 2017/18. Cynnydd o 96%.
169	y diwrnodau gwirfoddolwyr a dreuliwyd yn gwneud gwaith ar Rhywogaethau Anffordorol Goresgynnol yn 2017/18, o'i gymharu â 109.89 yn 2017/18. Cynnydd o 54%.

53	o Wardeniaid Gwirfoddol wrthi'n ddyfal yn 2018/19. Mae hyn yn ostyngiad ar y 72 yn 2017/18 ac yn is na'r targed o 70. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn amlygu adolygiad o wardeniaid gweithredol ar systemau cronfa ddata. Mae'r gwaith yn parhau i recriwtio wardeniaid gwirfoddol newydd.
107	Cyfranogwyr mewn diwrnodau astudio gwirfoddolwyr. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ymlusgiaid a hyfforddiant ar gloddio ar gyfer wardeniaid gwirfoddol gydag Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed oedd yn cyflwyno wardeniaid i dechnegau cloddio archeolegol ac adnabod arteffactau yn ogystal â chofnodi safle.

Roedd gweithgareddau gwirfoddoli cadwraeth yn cynnwys:

Plygu perthi yn Brandy Brook (Llwybrau)	Rhacanu gweirgloddiau yn Eglwys Cheriton (Wardeniaid Gwirfoddol y De)	Clirio prysgwydd yng Nghaerbwddi (Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd Orllewin)
Gwaredu llysiau'r gingroen â llaw ar Benrhyn Nab (Grŵp agored gwobr Dug Caeredin)	Plannu coed ym Mrynberian (Wardeniaid y Gogledd)	Torri Tocion yn Fresh Water East (Cyfeillion y Parc Cenedlaethol)

3. Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwarchod nodweddion arbennig y Parc drwy bolisiau cynllunio

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

0	datblygiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisiau gwarchod y dirwedd (Polisi 8 yn y Cynllun Datblygu Lleol) yn 2018/19. Mae hyn yr un peth ag yn 2017/18 ac yn unol â'r targed 0.
----------	---

4. Cyfrannu at rwydweithiau partneriaeth a chynlluniau gweithredu sy'n ategu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Partneriaeth Natur Sir Benfro	Mae Partneriaeth Natur Sir Benfro yn rhoi trosolwg strategol a fforwm i gydweithio o ran gweithredu blaenoriaethau'r UE, y
--------------------------------------	--

a Rhwydwaith Pori Sir Benfro	DU, Cymru a'r blaenoriaethau lleol ar faterion bioamrywiaeth. Roedd y Bartneriaeth yn rhan o gais llwyddiannus gan Gymru gyfan dan arweiniad y WCVA am gymorth i Bartneriaethau Natur, a gyflwynwyd i gronfa Llywodraeth Cymru 'Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru'. Hefyd parhaodd yr Awdurdod i gefnogi Rhwydwaith Pori Sir Benfro.
Grŵp Llywio Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau	Bu'r Grŵp Llywio Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau yn dathlu 25 mlynedd o gydweithio. Mae'r grŵp yn cynnwys diwydiannau mawr o amgylch y ddyfrffordd yn ogystal ag APCAP, Cyngor Sir Penfro, Porthladd Aberdaugleddau a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r grŵp wedi cynnal cryn dipyn o ymchwil a gwyliadwriaeth i ymchwilio i nodweddion amgylcheddol unigryw'r ddyfrffordd a'u monitro dros y 25 mlynedd diwethaf.
Grwpiau'r Awdurdodau Perthnasol	Parhaodd yr Awdurdod i gael ei gynrychioli ar Grwpiau'r Awdurdodau Perthnasol a chyfrannu i ariannu'r grwpiau ar gyfer ACA Morol Sir Benfro, ACA Bae Ceredigion a Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Mae'r Awdurdod yn parhau i gynrychioli Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri ar Grŵp Llywio Rheoli Ardal Warchodedig Morol Llywodraeth Cymru.
Rheoli'r Blaendraeth	Mae cynllun amlinellol wedi'i ddatblygu ac mae'r Awdurdod wedi gwneud cyfraniad ariannol i'r prosiect Mapio Gweithgarwch Cymru a wneir gan Fforwm Arfordir Sir Benfro. Bydd y prosiect hwn yn clustnodi lefelau'r defnydd hamdden, materion sy'n codi, a'r 'mannau problemus', a bydd yn dechrau edrych ar gludiant at ddibenion hamdden. Mae'r prosiect yn rhedeg tan fis Rhagfyr 2019 a bydd yn ymgynghori â nifer o'r rhanddeiliaid arfordirol perthnasol. Bydd cynllun manylach ar reoli'r blaendraeth yn cael ei lunio unwaith y bydd y prosiect wedi'i gwblhau.

Gwneud Gwahaniaeth: Grŵp Tanau Gwyllt a Sarn Rhostir

Yn 2018/19 fel rhan o'n hymwneud â Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro bu'r Awdurdod yn cynnal gweithgareddau i wneud ffermwyr yn ymwybodol o'r cyfle i ddefnyddio grug ac eithin o rostiroedd Sir Benfro yn sarn i'r anifeiliaid dros y gaeaf fel dewis arall rhatach na gwellt. Mae'r gwaith i dorri'r llystyfiant yn gwella strwythur, ansawdd a bioamrywiaeth y gweundir ac yn hefyd rhoi cyfle i anifeiliaid sy'n pori'r ardaloedd hyn fynd i lefydd sydd wedi gordyfu yn y gorffennol.

Trefnodd staff APCAP arddangosfa lwyddiannus o sarn rhostir yn Sioe Sir Benfro ar stondin Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cafwyd cryn gyhoeddusrwydd i'r arddangosfa gyda'r Awdurdod yn cydgysylltu'r broses o

ddarparu deunydd sarn i ffermwyr a fynegodd ddiddordeb. Mae cynaeafu'r grug a'r eithin o'r rhostiroedd hefyd yn lleihau'r llwyth tanwydd a'r risg o danau gwyllt. Roedd y cyfle hwn yn gysylltiedig â'r gwaith y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei wneud fel un o bartneriaid Grŵp Bywyd Gwyllt Sir Benfro. Eisoes mae Awdurdod y Parc yn torri llwybrau tân yn flynyddol i helpu porwyr i losgi llystyfiant yn ddiogel o dan reolaeth.

5. Sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau cadwraeth.

Ways of Working: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Pwyth mewn Pryd	Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau cyllid i barhau â'r Prosiect Pwyth mewn Pryd o gronfa 'Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru' Llywodraeth Cymru a Chronfa Dalgylch Dŵr Cymru. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar fonitro a chynnal canlyniadau yn nalgylchoedd Gwaun a Porth-gain o ran rhywogaethau goresgynnol, a chychwyn cymryd camau gweithredu yn Nalgylch Cors Castellmartin mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.
Prosiect Peilot Llwybrau, Planhigion a Pheillwyr (P3)	Sicrhawyd cyllid yn 2018/19 ar gyfer y prosiect peilot hwn sy'n ceisio gwella'r bioamrywiaeth ar hyd y rhan rhwng Niwgwl ac Abereiddi o Lwybr Arfordir Sir Benfro. Mae'r ardal beilot yn dod o fewn Ardal Infertebratau Pwysig Arfordir Sir Benfro. Bydd partneriaid y prosiect (Cyfoeth Naturiol Cymru ac APCAP) yn cyflawni hyn drwy weithio gyda'r perchnogion tir, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Buglife Cymru, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gwenyn Bwn a gwirfoddolwyr i glustnodi a gweithredu ystod o weithgareddau rheoli ymarferol. Cyflogir warden pryfed peillio fel rhan o'r prosiect hwn.

Amcan Llesiant – Iechyd a Lles

Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.



Cynhaliwyd Gŵyl Gerdded Dewch i Gerdded Sir Benfro yn Aberllydan (Gogledd)

Diogelwr Taith – Ble yr ydym ni nawr?

Cyfeiriad Teithio tuag at gyflawni ein Hamcan

Blwyddyn	Dechrau Arni	Gwneud Newidiadau Syml	Bod yn fwy Anturus	Yn Berchen ar ein Huchelgais	Arwain y Ffordd
2017/18			✓		
2018/19			✓		

1. Gweithio gydag eraill i ddatblygu cyfleoedd a sylfaen dystiolaeth partneriaethau sy'n gysylltiedig â rhostiroedd.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

WWNHS ac Eraill	Yn ystod 2017/18 parhaodd yr Awdurdod i hwyluso Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru sy'n cynnig cyfleoedd i gomisiynwyr feithrin cysylltiadau â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar lawr gwlad mewn cymunedau. Cyfarfu grŵp o bartneriaid perthnasol yn y sir ac maent wedi penderfynu datblygu rhwydwaith Plant a Theuluoedd yn yr Awyr Agored.
Prifysgol Abertawe	Datblygwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Abertawe, i helpu i hwyluso mynediad at gyfleoedd i ariannu gwaith ymchwil, yn ymwneud ag Parciau Cenedlaethol ac effeithiau ar Iechyd a Lles.

2. Cyflwyno a datblygu prosiectau a chyfleoedd sy'n hyrwyddo llesiant a chydnerthedd.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

2	Treialwyd sesiynau Plantos Natur yn 2018/19 gydag 8 yn bresennol. Cynhaliwyd un sesiwn ar y traeth ym Mae West Angle a'r llall yng Nghastell Caeriw. Mae'r Awdurdod yn chwilio am gyllid i ddatblygu prosiect 1000 diwrnod cyntaf gyda'r nod o ddatblygu cyfleoedd ymgysylltu yn yr awyr agored ar gyfer plant oed cyn-ysgol.
2,197.5	Diwrnodau gwirfoddoli a gyfrannwyd yn 2018/19, o'i gymharu â 2,155.9 yn 2017/18.
191	Diwrnodau gwirfoddoli a gyfrannwyd gan Arweinwyr Gweithgareddau Gwirfoddol yn 2018/19.
688.5	Diwrnodau gwirfoddoli a gyfrannwyd trwy'r prosiect Llwybrau yn 2018/19.
Gwerthuso Llwybrau	Nod prosiect Llwybrau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw helpu mwy o bobl i dreulio amser yn yr awyr agored a chanolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau a chynnig cyfleoedd i wirfoddoli. Mae'r prosiect yn cael ei werthuso i asesu'r effeithiau ar iechyd a lles y cyfranogwyr, gyda swyddogion a chyfranogwyr yn 2018/19 yn cymryd rhan yn y sesiynau newid mwyaf arwyddocaol a chymunedau ymholi.

Ymhlith gweithgareddau gwirfoddoli Llwybrau oedd y canlynol:

Ailadeiladu grisiau (Harbwr Solfach)	Gwaith ar wal gynnal glan yr afon (Nant Brandy)	Clirio prysgwydd o'r Odyn Galch (Aber Trefdraeth)
Bondocio helygen (Coedwig Portfield Gate)	Gwaith Dolydd - Sesiwn Blasu (Abaty Llandudoch)	Ailadeiladu ffos a glan yr afon (Comin Carningli))

3. Darparu cyfleoedd cerdded â chymorth a hyrwyddo cyfleoedd i fod yn egnïol yn gorfforol yn y Parc, yn enwedig ar gyfer cymunedau lleol.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Cyfleoedd Cerdded â Chymorth):

18	Arweinwyr grwpiau sydd wedi'u hyfforddi trwy sesiynau hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded yn 2018/19. Mae hyn yn ostyngiad ar y 50 a hyfforddwyd yn 2017/18, ond yn uwch na'r targed o 14 a osodwyd ar gyfer 2018/19.
Hyfforddiant Arweinydd Cerdded	Recriwtiwyd arweinwyr teithiau cerdded yn 2018/19 a byddant yn ymuno â chwrs hyfforddi arweinwyr cerdded yr Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd i'w gynnal ddechrau 2019/20. Adolygwyd y disgrifiad tasgau ar gyfer arweinwyr cerdded fel rhan o'r ymgyrch recriwtio.
Cyfeiriadur Grwpiau Cerdded	Mae'r Awdurdod yn cynnal Cyfeiriadur Grwpiau Cerdded Sir Benfro ar ei wefan. Mae'n rhoi gwybodaeth am grwpiau cerdded lleol i'w gwneud hi'n haws i bobl ddod o hyd i gyfleoedd cerdded sydd ar gael ar garreg eu drws.
Cais i'r Gronfa Iach ac Egnïol	Yr Awdurdod oedd y sefydliad oedd yn arwain y gwaith o wneud cais rhanbarthol i Gronfa Iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Dewch i Gerdded Gorllewin Cymru yn 2018/19. Roedd y cais hwn yn llwyddiannus a bydd yn cyfrannu at yr agenda presgripsiynu cymdeithasol ehangach yng Nghymru. Mae hefyd yn enghraifft o weithio drwy gydweithredu ar lefel rhanbarthol gyda phartneriaid y cais a'r prosiect gan gynnwys Fforwm 50+ Sir Gâr (Cerdded Iach Sir Gâr), Cyngor Sir Ceredigion (Ceredigion Actif) a Byw yn Annibynnol 'Snowdrop' (cwmni o Orllewin Cymru sy'n darparu ystod o gymorth i'r rhai sy'n dioddef rhyw fath o anabledd) fel partneriaid cyflawni, ac lechyd Cyhoeddus Cymru fel partner sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth.

	Nod y prosiect yw datblygu model cynaliadwy ar gyfer grwpiau cerdded iechyd a lles ar draws ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sy'n cynorthwyo unigolion sydd ar hyn o bryd yn byw bywydau eisteddog neu gymharol eisteddog, i ddod yn fwy egniol yn gorfforol. Drwy greu a datblygu'r grwpiau cerdded newydd hyn gyda meddygfeydd meddygon teulu a/neu leoliadau cymunedol eraill megis Canolfannau Hamdden, mae'r model hwn yn ceisio grymuso'r lleoliad i gymryd perchnogaeth o'r grŵp cerdded unwaith y bydd wedi'i sefydlu, a threfnu teithiau cerdded iechyd cynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hir. Drwy fecanwaith atgyfeirio neu hunan-atgyfeirio, gwahoddir unigolion i gymryd rhan yn y teithiau cerdded iechyd gyda'r nod y bydd cymryd rhan yn y grŵp yn gwella eu gweithgaredd corfforol a'u lles meddyliol.
1,730	Cyfranogwyr yn sesiynau Dewch i Gerdded yn 2018/19. Mae hyn yn ostyngiad o 1,771 yn 2017/18 ac yn is na'r targed 2,300. Mae hyn yn amlygu'r angen i ddirwyn gweithgareddau i ben gyda rhai grwpiau cerdded yn ystod newid swyddog Dewch i Gerdded.
652	o gyfranogwyr mewn sesiynau Dewch i Gerdded yn 2018/19 drwy atgyfeirio i wneud ymarfer corff y Gogledd, atgyfeirio i wneud ymarfer corff y Canol a grŵp atgyfeirio Cardiaidd Hwlfordd.
562	o gyfranogwyr mewn sesiynau grŵp agored Dewch i Gerdded yn 2018/19, gan gynnwys grwpiau agored Dewch i Gerdded ar gyfer Hwlfordd a Doc Penfro.

Ymhlith y grwpiau a gymerodd ran yn y cynllun Dewch i Gerdded yn 2018/19 oedd:

Gofalwyr Kilgetty	De Clare Court - Cynllun Tai Gofal	MIND	Tŷ Shalom
:			
Oriel VC	REACH	Canolfan leuenctid Point	Caffi Cof

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Cyfleoedd Gweithgaredd Corfforol):

169,837	o bobl sy'n defnyddio llwybrau troed o 7 cownter llwybr arfordir a 4 cownter hawl tramwy mewndirol yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 173,441 yn 2017/18 ac mae'n ostyngiad o 2%.
149,176	o bobl yn defnyddio'r llwybr lle mae ein 7 dyfais cyfrif ar lwybr yr arfordir yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 154,907 yn 2017/18 sy'n ostyngiad o 36%.

20,661	o bobl yn defnyddio'r llwybr lle mae ein 4 dyfais cyfrif ar hawliau tramwy mewndirol cyhoeddus. Mae hyn yn cymharu â 18,534 yn 2017/18 sy'n gynydd o 11%.
22,237	o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau corfforol egniol yn 2018/19 o gymharu â 20,769 yn 2017/18. Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau ffitrwydd yn 2018/19. Yn 2017/18 cymerodd 141 o bobl ran mewn gweithgareddau ffitrwydd a hwyluswyd gan yr Awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â rhedeg.
2,732	Participants in walks led by rangers, centre staff and volunteers in 2018/19, o'i gymharu â 2,853 yn 2017/18.
45	o bobl a fynychodd y diwrnod Gŵyl Gerdded Sir Benfro a gynhaliwyd yn Aberllydan oedd yn cynnig teithiau cerdded tywysedig yn ddi-dâl i bob oedran a gallu.
Guidance Code for Running	Yn 2018/19 roedd yr Awdurdod wedi datblygu cod canllawiau ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau rhedeg ar Lwybr Arfordir Sir Benfro. Mae'r ddogfen yn rhoi canllawiau syml ar ffurf darluniau ar redeg yn ddiogel ac yn gyfrifol, a chyhoeddwyd y ddogfen yn y papur Coast to Coast.
43,018	o fapiau cerdded a lawr lwythwyd o wefan APCAP yn 2018/19.

Y lawrlwythiadau cerdded gwe mwyaf poblogaidd ar gyfer 2018/19 oedd:

Stackpole Head (Hanner Diwrnod) 960 lawrlwythiadau	Bosherston/ Sain Govan (Hanner Diwrnod) 757 lawrlwythiadau	Penmaen Dewi (Hanner Diwrnod) 757 lawrlwythiadau
---	---	---

4. Cynnwys plant Sir Benfro a thu hwnt mewn gweithgareddau corfforol ac yn yr awyr agored drwy ein rhaglen addysg.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

3	sesiwn hyfforddi awyr agored i athrawon a gynhaliwyd yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 10 yn 2017/18 ac mae'n is na'r targed o 10. Hyfforddwyd 23 o athrawon drwy'r sesiynau hyn yn 2018/19, o'i gymharu â 126 yn 2017/18, sy'n is na'r targed o 50. Roedd y gallu i ddarparu sesiynau hyfforddi awyr agored i athrawon yn gyfyngedig yn 2018/19 oherwydd bod Prosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro wedi dod i ben. Llwyddwyd i sicrhau cyllid ar gyfer prosiect 2 flynedd Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro ddylai
----------	---

	gael effaith gadarnhaol ar nifer y sesiynau yn 2019/20.
9,447	o gyfranogwyr mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored a gyflwynwyd gan yr Awdurdod yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 9,795 yn 2017/18, sef gostyngiad o 3%.
9,565	o blant ysgol (a phobl ifanc) yn cymryd rhan mewn sesiynau corfforol egniïol drwy sesiynau addysg yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 9,701 yn 2017/18.
855	o blant ysgol (a phobl ifanc) yn cymryd rhan mewn teithiau cerdded dan arweiniad APCAP drwy'r sesiynau addysg yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 648 yn 2017/18.
73.33%	o ysgolion yn y Parc Cenedlaethol cymerodd rhan mewn sesiynau corfforol egniïol yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 72.22% yn 2017/18.
64.06%	o ysgolion yn Sir Benfro cymerodd rhan mewn sesiynau corfforol egniïol yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 75.71% yn 2017/18.

Peth o'r gwaith ar Diroedd Ysgol a wnaed yn 2018/19 i hwyluso dysgu yn yr awyr agored:

Adeiladu Gwesty Bygiau (Ysgol Feithrin Mount Airey)	Clirio ardal ar gyfer ystafell ddosbarth yn yr awyr agored (Ysgol y Preseli - Grŵp Anogaeth a'r Chweched Dosbarth)	Plannu Coed ar Diroedd Ysgol (Ysgol Penrhyn Dewi Sant)
Creu Gardd Bywyd Gwyllt a Phwll Dŵr (Ysgol Aberdaugleddau)	Adeiladu gwelyau uchel i ddisgyblion blannu planhigion ynddynt (Ysgol Llandyfai)	Creu gardd synhwyrdd bywyd gwyllt (Canolfan Ddysgu Sir Benfro Neyland)

5. Defnyddio polisiâu cynllunio i hyrwyddo tai fforddiadwy.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

45.02%	o unedau tai a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn dai fforddiadwy yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 14.75% yn 2017/18.
95	o unedau tai fforddiadwy wedi'u cymeradwyo yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 9 yn 2017/18.
£53,921	Cyfraniadau cytundeb adran 106 ar gyfer tai fforddiadwy yn 2018/19.

Gwneud Gwahaniaeth: Tai Fforddiadwy a Gymeradwywyd

Yn 2018/19 gwnaeth Aelodau'r Awdurdod benderfyniadau cynllunio ar gyfer datblygiadau yn y Parc a allai arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy mewn ardaloedd addas yn y Parc, yn enwedig Tyddewi. Cymeradwywyd 95 o unedau tai fforddiadwy yn 2018/19 yn ardal y Parc. Cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yw conglfaen llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae tai yn un o'r meysydd blaenoriaeth i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac i Lywodraeth Cymru yn ei Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Hefyd tai yw'r thema allweddol a amlygwyd ym Maniffesto Ieuencid Europarc. Mae'r heriau a wynebier o ran darparu tai fforddiadwy yn y Parc hefyd wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Amcan Llesiant - Cydraddoldeb

Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.



Bu Parcmyn Ieuenctid Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn mynychu cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i lansio Maniffesto Ieuenctid Europarc

Diogelwr Taith – Ble yr ydym ni nawr?

Cyfeiriad Teithio tuag at gyflawni ein Hamcan

Blwyddyn	Dechrau Arni	Gwneud Newidiadau Syml	Bod yn fwy Anturus	Yn Berchen ar ein Huchelgais	Arwain y Ffordd
2017/18		✓			
2018/19		✓			

1. Gweithio i sicrhau bod ein gwasanaethau a'n safleoedd yn hygyrch ac yn gynhwysol.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

2

o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau yn 2018/19, yr un nifer ag yn 2017/18. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o'r Gorchymyn Amrywio'r Meysydd Parcio. Hefyd mae gwaith wedi'i wneud yn barhaus ar Asesu'r Effaith ar

	Gydraddoldeb ar gyfer y Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig.
Prosiect Archwilio Safleoedd a Phrofiadau i Bawb	Roedd y tîm Dehongli a swyddog Twristiaeth Iechyd a Lles yr adran Cyfarwyddyd wedi gwneud adolygiad mewnol o safleoedd yr Awdurdod. Ymwelwyd â safleoedd yn y De i'w hasesu, a lluniwyd adroddiad drafft. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r gwaith a wneir fel rhan o'r Prosiect Profiadau i Bawb sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac a gyflawnir yn 2019/20. Bydd y prosiect hwn yn meithrin dealltwriaeth o anghenion ac yn datblygu adnoddau i wella profiadau amrywiaeth ehangach o bobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol ac yn ymweld â'r Parc. Bydd y prosiect hwn yn ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth - grwpiau ac unigolion - i ddeall eu hanghenion, a'r modd y maent yn cyrchu ac yn ymgysylltu â'r Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd.
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddementia	Bu'r staff yn mynychu Sesiwn Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Ddementia a gynhaliwyd yn Oriel y Parc fis Ebrill. Hefyd mae Oriel y Parc yn cynnal y Caffi Cof sy'n cynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia a heriau cof, a'u gofalwyr.

Cyfleoedd Gwella: Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Yn ystod 2019 bydd yr Awdurdod yn adolygu ei Amcanion a'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol, a bydd yn parhau i gynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ei Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig. Bydd y ddwy ddogfen yn cael eu llywio gan weithgareddau arolwg ac ymgysylltu rhanbarthol a gynhelir gan gyrff cyhoeddus yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys. Bydd y gweithgareddau hyn yn gymorth i sicrhau bod cynlluniau a champau gweithredu tymor hir yr Awdurdod yn talu sylw i ystyriaethau cydraddoldeb.

2. Casglu gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb i helpu i ddadansoddi amrywiaeth y gweithlu a chlustnodi meysydd i'w gwella.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

78.4%

o wybodaeth Monitro Cydraddoldeb a gwblhawyd ar system Pobl y Parc, roedd hyn yn gynnydd ar 76% yn 2017/18 ac yn uwch na'r targed 70.

System Newydd o Recriwtio Ar-lein

Fis Tachwedd 2018 lansiodd yr Awdurdod ei system recriwtio ar-lein. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu'r nifer all weld yr hysbysebion swyddi, ac yn cynnig y cyfle i ddadansoddi'r wybodaeth recriwtio yn fwy manwl yn y dyfodol.

Gweler Atodiad 1 am ddata a dadansoddi recriwtio a monitro cydraddoldeb ymhlith y gweithlu.

3. Sicrhau bod cyflogau yn cael eu talu'n deg

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Integreiddio. Cynnwys

Cymhathu APCAP i golofn dâl yr NJC 2019

Yn ystod 2018/19 adolygwyd y canllawiau gan yr NJC ar gymathu i'r golofn dâl newydd, a chynhaliwyd ymarferiad o rannu syniadau gyda Chyngor Sir Penfro. Bu'r swyddogion yn gweithio gyda'r cynrychiolwyr staff ac Unsain ar argymhelliad ar y cyd ar gymathu APCAP i golofn dâl 2019 yr NJC, a chyflwynwyd yr argymhelliad hwn i'r staff i wneud sylwadau arno. Cytunwyd ar gymathiadau APCAP i golofn dâl 2019 yr NJC gan symud i'r graddfeydd newydd o fis Ebrill 2019.

4. Cyflawni gwaith cynhwysiant cymdeithasol sy'n chwalu'r rhwystrau i gael mynediad i'r Parc a'l fuddiannau.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Llwybrau - Gwaredu Rhwystrau i Wirfoddoli ac i'r awyr agored

Mae'r prosiect Llwybrau yn helpu i gefnogi cyfranogwyr i glustnodi'r hyn y maent am ei gyflawni a'r hyn y gellir ei roi ar waith i'w cynorthwyo gyda'u profiad gwirfoddoli ac i gael gwared ar rwystrau y gallent eu hwynebu. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gydag ystod o grwpiau o blith sefydliadau megis Fferm Gofal Clynfyw, Oriel VC, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, a Gofal Dydd Elliot's Hill i alluogi eu defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad i'r awyr agored a gwirfoddoli yn y Parc. Mae Monitro Cydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r prosiect hwn a bydd yn galluogi dadansoddi yn y dyfodol o ran y modd y mae'r prosiect wedi rhyngweithio â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

4,755

bobl yn ymwneud â'n gweithgareddau cynhwysiant cymdeithasol yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 2,356, cynnydd o 102%. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu gwelliannau mewn dulliau recordio. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: 550 o gyfranogwyr.

1,261

Cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy drwy ein gwaith cynhwysiant cymdeithasol gyda phobl ifanc yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 438 yn 2017/18 ac yn amlygu'r gwaith a wnaed gan y parcymyn ieuenctid i hyrwyddo Manifesto Ieuenctid y Parc Cenedlaethol i bobl ifanc yn Sir Benfro.

10

o Barcymyn Ieuenctid gweithredol ar ddiwedd 2018/19, mae hyn yr un nifer â 2017/18 ac yn is na'r targed o 15. Roedd sawl un o'r parcymyn ieuenctid wedi symud yn eu blaenau ar ddechrau'r flwyddyn, gyda nifer o barcymyn ieuenctid newydd yn dechrau yn chwarter 4. Mae gwaith wedi bod ar y gweill i recriwtio parcymyn

	ieuenctid newydd. Ymhlith y gweithgareddau recriwtio oedd gwneud cyflwyniadau i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Hwlfordd a chysylltu â Choleg Sir Benfro.
Cynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant	Cyfarfu Grŵp Iechyd a Lles y 3 Parc Cenedlaethol yng Nghymru a chytunwyd i ddatblygu datganiad sefyllfa ar gynhwysiant cymdeithasol a thlodi plant. Y nod yw i'r datganiad sefyllfa hwn gael ei gynnwys fel Atodiad i'r cynlluniau cydraddoldeb diwygiedig. Disgwylir i faterion yn ymwneud ag arwahanrwydd gwledig a thlodi ymddangos fel themâu.

Enghreifftiau o weithgareddau Cynhwysiant Cymdeithasol ac ymgysylltu a gynhaliwyd yn 2018/19:

Taith gerdded coetir Aberllydan gyda Grŵp Saesneg fel Ail Iaith (Dewch i Gerdded)	Codi'r planhigyn ymledol Jac y Neidiwr yng Nghwm Ritec gyda'r Parcmyn Ieuenctid (Llwybrau / Pwyth mewn Pryd)	Addurno'r tŷ crwn newydd â phigmentau pridd gyda myfyrwyr Coleg Plas Dwbl (Castell Henllys)
Gweithdy byw yn y gwyllt a chyllill ar gyfer Canolfan Ieuenctid Point (Parcmyn mewn partneriaeth â Swyddogion Cymunedol Heddlu Dyfed Powys)	Dal Crancod yng Nghastell Caeriw gyda chyfranogwyr o Gofal Elliot Hill (Llwybrau)	Gwaredu ffens di-angen yn St Non gyda chyfranogwyr Tîm CSP o Amgylch y Teulu (Parcmyn)
Plannu coed derw a choed ynn yng Nghwm Gwaun gyda Gwirfoddolwyr Llwybrau (Llwybrau)	Taith gerdded ar Draeth Dinbych-y-pysgod ar gyfer Pobl yn Gyntaf Sir Benfro (Parcmyn)	Taith Gerdded Calan Gaeaf gyda Phrosiect Ieuenctid Tanyard (Parcmyn)
Darlith ar alwadau adar môr i Grŵp â Nam ar eu Golwg Penfro (Parcmyn)	Taith gerdded a chasglu sbwriel ym Mhorth Melgan gyda Grŵp Mind (Dewch i Gerdded)	Taith Gerdded dywys Pentre Ifan ar gyfer Gofal yn y Gymuned Tyddewi (Parcmyn)

Enghreifftiau o weithgareddau ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu neu gymorth ychwanegol yn 2018/19:

Taith Gerdded Coetir a gweithgareddau traeth ar gyfer Grŵp Anogaeth Ysgol y Preseli

Adeiladu llwybr hygrych i'r ardd wyllt gyda myfyrwyr Ysgol Portfield

Parcmon yn cyflwyno cymhwyster Byw yn y Gwyllt gyda gweithiwr ieuenctid CSP i Ysgol Bro Gwaun - Grŵp Symud Ymlaen

Torri dolydd blodau gwyllt a chribinio gyda disgyblion yng Nghanolfan Ddysgu Sir Benfro – Cam wrth Gam

Taith gerdded Foel Cwmcerwyn ar gyfer Gwobr John Muir gyda disgyblion Ysgol y Preseli - Y Porth

Gweithgor grŵp gwobr Dug Caeredin Ysgol Portfield yn cael gwared ar sbwriel ar y traeth yng Nghwm Mawr

5. Hyrwyddo a chynorthwyo cyfleoedd twristiaeth hygrych a chynhwysol.

Ffyrdd o Weithio: Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

8

Cadair Olwyn Traeth a drefnir gan leoliadau lleol yn ystod haf 2018. Mae cadeiriau olwyn traeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'u cynllunio a'u cynhyrchu'n arbennig i'w defnyddio ar draethau tywodlyd gan alluogi mwy o bobl i allu cael mynediad i draethau ar draws y Parc. Roedd cadeiriau olwyn traeth ar gael yn y lleoliadau canlynol - Traeth Poppit, Traeth Trefdraeth, Aberllydan, West Angle, Freshwater East, Saundersfoot a Traeth Mawr (x2).

4,094

O fapiau llwybrau cerdded addas i gadeiriau olwyn wedi'u lawrlwytho o gwefan APCAP yn 2018/19.

Y lawrlwythiadau cerdded gwe cadair olwyn fwyaf poblogaidd ar gyfer 2018/19 oedd:

Morlyn Glas
Abereiddi
541 lawrlwythiadau

Stack Rocks i Sain
Govan's
324 lawrlwythiadau

Abermawr
301 lawrlwythiadau

6. Gwrando ar bobl ifanc a datblygu mecanweithiau iddynt ddylanwadu ar y gwaith a wnawn ac ar Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Maniffesto leuenctid

Mae cynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau a llywodraethu yn yr Awdurdod yn un o'r camau gweithredu blaenoriaeth yng nghynllun gweithredu yr Awdurdod ar ymgysylltu. Yn 2018, aeth tri o Barcmyn leuenctid yr Awdurdod i Gynhadledd Europarc yn Cairngorm lle lansiwyd Maniffesto leuenctid Europarc. Bu'r Parcmyn leuenctid yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Tachwedd 2018 i godi ymwybyddiaeth o'r maniffesto ymhlith yr Aelodau. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Parcmyn leuenctid a'r Aelodau i hwyluso rhagor o waith yn y maes hwn gyda phreswyl yn cael ei threfnu ar gyfer 2019/20.

Amcan Llesiant – Cymunedau

Annog cymunedau i ymgysylltu'n fwy â'r Parc Cenedlaethol.



Bu disgyblion dosbarth 2 o Ysgol Llanychlwydog yn gweithio gyda Richard Vaughan, Parcmon lleol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, i adeiladu'r gwesty bygiau.

Diogelwr Taith – Ble yr ydym ni nawr?

Cyfeiriad Teithio tuag at gyflawni ein Hamcan

Blwyddyn	Dechrau Arni	Gwneud Newidiadau Syml	Bod yn fwy Anturus	Yn Berchen ar ein Huchelgais	Arwain y Ffordd
2017/18		✓			
2018/19		✓			

1. Ymgysylltu â phobl mewn sgwrs barhaus am y Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	Yn ystod 2019/20 bydd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cael ei adolygu gyda chynllun newydd wedi'i fabwysiadu erbyn diwedd 2019. Dosbarthwyd dogfen cyfleoedd a heriau i gael sylwadau arni yn ystod rhan olaf 2018 fel rhan o'r broses hon.
---	---

	Cafodd Adroddiad Cwmpasu drafft o Asesu Cynaliadwyedd (oedd yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol) ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 30 Ionawr 2019. Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ar y Cynllun Rheoli gyda'r Aelodau fis Chwefror 2019. Bu'r gweithdy yn ystyried tagfeydd, parcio dros nos, rhywogaethau goresgynnol ac ymgysylltu, gydag opsiynau wrth symud ymlaen i'w hystyried yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Cynllun Rheoli fel sy'n briodol.
--	---

2. Datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Strategic):

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Ymgysylltu i drafod Cyfleoedd a Heriau	Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu cyn drafftio Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol diwygiedig, mae'r Awdurdod wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu â gwahanol grwpiau gan gynnwys sesiwn gyda phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr a phobl sy'n ymwneud â Phrosiect Gofal Solfach. Hefyd roedd yr Awdurdod wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau cymunedol gan gynnwys diwrnod cymunedol ATEB yn Aberdaugleddau. Bydd cyfleoedd dysgu o'r gweithgareddau hyn yn gymorth i lywio dulliau o ymgysylltu o fewn yr Awdurdod yn y dyfodol.
Grŵp Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu	Parhaodd grŵp Cynllun Gweithredu yr Awdurdod ar Ymgysylltu i gwrdd, sy'n cynnwys swyddogion o bob rhan o'r Awdurdod. Mae'r grŵp yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yng nghynllun gweithredu yr Awdurdod ar ymgysylltu. Mae'r cynllun yn ddogfen fyw sy'n galluogi'r grŵp i ôl-ystyried a diwygio'r camau o weithredu o dan feysydd blaenoriaeth yn dilyn dysgu o roi cynnig ar ddulliau newydd, a chlustnodi cyfleoedd newydd neu arfer gorau.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Digwyddiadau pop-yp a Parcmyn Haf):

2,098	o bobl wedi mynychu digwyddiadau pop-yp ar draethau a lleoliadau eraill yn y Parc yn 2018/19, ac mae hyn yn cymharu â 623 o bobl yn 2017/18. Mae hyn yn amlygu bod gan yr Awdurdod ddau barcmon haf, un yn y Gogledd a'r llall yn y De yn 2018/19 o'i gymharu â chael dim ond un parcmon haf yn y De yn 2017/18. Ymhlith y gweithgareddau a gynigiwyd oedd dal crancod, chwilio'r pyllau glan môr, glanhau traethau a gêmau traeth.
--------------	--

120	o fusnesau lleol yr oedd y parcmyn haf yn cysylltu â hwy yn wythnosol. Roedd y ddau barcmon wedi creu pecyn gwybodaeth ar gyfer busnesau fel y gallai eu staff drosglwyddo gwybodaeth leol berthnasol am y Parc Cenedlaethol i'r cyhoedd.
Cyrraedd Cynulleidfaoedd Newydd	Roedd ymgysylltu ar y traethau yn galluogi'r parcmyn haf i ymgysylltu a rhoi gwybodaeth am y Parc i gynulleidfaoedd newydd. Yn ardal y De nid oedd gan 24% o'r rhai a gymerodd ran unrhyw wybodaeth flaenorol am y Parc Cenedlaethol, gyda dros 50% o'r ymwelwyr yn Ne Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot heb unrhyw wybodaeth o gwbl cyn siarad â'r Parcmon.

Adborth am y Parcmyn Haf:

““Roedd yn wych i'r bobl oedd ar eu gwyliau i gael rhywun yn yr ardal allai roi gwybodaeth iddynt am weithgareddau di-dâl, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol.”

“Roedd cael y Parcmon yn yr ardal wedi sicrhau bod dolen gyswllt bob amser ar gael ar gyfer arbenigedd a chynghor APCAP”

“Hwn oedd y tro cyntaf i ni gael Parcmon y Parc yn gwneud Gweithgareddau Haf ar y traeth ac roedd yn wych ein bod yn gallu rhoi gwybod i'r ymwelwyr am y swyddogaeth ragorol hon.”

“Ffynhonnell wybodaeth ragorol gydag amrywiaeth o weithgareddau addysgol (effaith amgylcheddol yn arbennig) a gweithgareddau hwyl ar gael yn lleol. Llysgenhadon gwych i'r Parc Cenedlaethol. Yn bendant yn un o'r mentrau gorau gan y PC i mi ei gweld yn y blynyddoedd diwethaf.”

3. Gweithio'n fewnol a gydag eraill i ddatblygu atebion arloesol i heriau natur wledig

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Cysylltu â chynlluniau a rhwydweithiau ehangach	Parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ag 8 ffrwd waith ar y gweill, gyda nifer o ffrydiau gwaith yn ymwneud â materion byw yng nghefn gwlad. Bu swyddogion APCAP yn
--	--

	mynychu cyfarfod agoriadol Partneriaeth Troseddau Gwledig Sir Benfro. Hefyd mae'r swyddogion wedi gweithio gyda Heddlu Dyfed Powys ar batrolau ar y cyd ar droseddau treftadaeth.
--	---

4. Hyrwyddo gwydnwch y gymuned drwy gynnwys cymunedau mewn prosiectau, gwirfoddoli a chyfleoedd gweithredu cymdeithasol yn y Parc.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

581	o ddiwrnodau gweithredu cymdeithasol wedi'u cyfrannu yn 2018/19.
37	o ddiwrnodau gweithredu cymdeithasol wedi'u cyfrannu drwy weithio gyda Thîm o amgylch y Teulu, Cyngor Sir Penfro.
708	o weithgareddau prosiect/ymgysylltu cymunedol (cronfa ddata Digwyddiadau a Gweithgareddau yn unig) yn 2018/19, o'i gymharu â 374 yn 2017/18.
Trosglwyddo Ased Cymunedol - Stryd Hir	Yn 2018/19 roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cymeradwyo bod yr Awdurdod yn trosglwyddo Ased Cymunedol adeilad ei ganolfan wybodaeth. Roedd Cyngor Tref Trefdraeth wedi cymryd drosodd yr adeilad ar Stryd Hir, ar ôl cytuno ar brydles o 30 mlynedd a rhent o £1 y flwyddyn. Hefyd mae'r Cyngor Tref wedi llwyddo yn eu cais am Grant Gwella Sir Benfro gan Gyngor Sir Penfro i helpu i sefydlu'r cyfleusterau newydd.

Roedd Gweithgareddau Archaeoleg Cymunedol yn 2018/19 yn cynnwys:

Arolwg monitro cyflwr mewn bwthyn ôl-ganoloesol gyda disgyblion Ysgol y Frenni	Stondin trin arteffactau yn rownd derfynol talent CFFI Sir Benfro	Clirio llystyfiant yn ffosydd ymarfer y Rhyfel Byd Cyntaf ym Mhenalun gyda Myfyrwyr Paratoi Byddin Coleg Sir Benfro	Gweithio gydag arweinydd grŵp paganaidd lleol i annog ymwelwyr â Gors Fawr a safleoedd eraill i beidio â llosgi ar y safle
---	--	--	---

Roedd gweithgareddau gweithredu cymdeithasol yn 2018/19 yn cynnwys:

Addurno y tu fewn i'r
tŷ crwn newydd ac
adeiladu aelwyd
(Colog Sir Benfro)

Codi iet yn lle'r hen
sticil oedd wedi pydru
ar lwybr troed
mewndirol yn
Llanwnda (CSP - Tîm o
amgylch y Teulu)

Casglu Sbwriel ar
Draeth Poppit
(Ysgol Pen-boyr)

Ymhlith y grwpiau oedd yn ymwneud â gwaith yr Awdurdod ar rywogaethau goresgynol yn 2018/19 oedd

Cyngor
Cymunedol Cwm
Gwaun

Grŵp Llwybrau
Trefdraeth

Valero

Cyngor Cymuned
Llandudoch

Llwybrau
(APCAP)

Llais Llanychaer

Ffrindiau PCAP

Wardeiniaid
Gwirfoddol
(APCAP)

Gwneud Gwahaniaeth: Gweithio gyda'r ysgol leol i adeiladu gwesty ar gyfer trychfilod yn Nyffryn Gwaun

Adeiladodd disgyblion Dosbarth 2 yn Ysgol Llanychlwydog gwesty ar gyfer trychfilod yng Nghwm Gwaun mewn ymgais i hyrwyddo peillwyr a hybu bioamrywiaeth yn eu hardal leol gyda help gan Barcmon yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Trwy'r prosiect mae'r plant wedi bod yn dysgu am fwyd y byd a phwysigrwydd peillwyr. Mae'r gwesty ar gyfer trychfilod wedi cael ei adeiladu ar dir yng nghanol pentref Pontfaen, gyda chaniatâd caredig Cyngor Sir Benfro, gan alluogi preswylwyr ac ymwelwyr i weld a mwynhau beth y mae'r plant wedi'i gyflawni.

Mae'r plant wedi adeiladu'r strwythur pren bychan gyda briciau a boncyffion a fydd yn darparu cartref hapus a thir bridio addas ar gyfer pryfed, fel buchod coch cwta a chwilod at beillwyr fel gwenyn. Yn eu tro, mae'r rhain yn darparu bwyd ar gyfer bywyd gwyllt eraill fel adar.

5. Defnyddio asedau'r Parc i roi'r cyfle i gymunedau ddod ynghyd ac i roi'r cyfle iddynt ddweud eu straeon eu hunain am y Parc Cenedlaethol

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

11	Digwyddiadau cymunedol a ffeiriau a gynhelir mewn canolfannau yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 12 yn 2017/18
3,863	o bobl wedi mynychu ffeiriau a gynhelir yn Oriel y Parc - Ffair Gwanwyn, Ffair Haf, Ffair Bwyd y Cynhaeaf a'r Farchnad Nadolig.
2,011	o bobl wedi mynychu ffeiriau a gynhelir yn Caeriw – Ffair Haf a Ffair Nadolig a Groto Siôn Corn.
4	Nifer cyfartalog y grwpiau cymunedol sy'n defnyddio OYP yn 2018/19, mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 5 yn 2017/18.
3	panel dehongli wedi'u creu, un yn Dinas a dau yn Caeriw Cheriton.
Digwyddiadau Cymunedol	Parhaodd cymunedau (Solfach, Aberllydan a Little Haven) yn y Parc i dderbyn y cynnig i ddefnyddio maes parcio cyfan APCAP yn ddi-dâl i gynnal digwyddiadau cymunedol pan gefnogir y cais gan y cyngor cymuned lleol.

6. Cyflawni gwasanaeth gorfodaeth gynllunio effeithiol gyda chymorth y gymuned.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

80.47%	O achosion gorfodi wedi'u hymchwilio (cyn pen 84 diwrnod) yn 2018/19, cynnydd o 60.12% yn 2017/18. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 88.67%
160.50	Diwrnod, yr amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodaeth mewn diwrnodau yn 2018/19. Mae hyn yn ostyngiad ar y 234 diwrnod yn 2017/18.
344.5	Diwrnod, yr amser cyfartalog a gymerir i gymryd camau gorfodaeth mewn diwrnodau yn 2017/18, cynnydd ar y 334.5 yn 2017/18. Yn ystod 2018/19 roedd tîm gorfodaeth yr Awdurdod wedi canolbwyntio ar glirio'r ôl-groniad o achosion gorfodi hanesyddol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd mwyafrif yr achosion hanesyddol wedi'u clirio gyda dim ond nifer fach yn weddill oedd yn ymwneud yn bennaf â'r achosion lle mae anghydfod cyfreithiol yn parhau. Roedd y gwaith a wnaed yn 2018/19 wedi effeithio ar yr amser cyfartalog a gymerwyd i gymryd camau gorfodi oedd wedi parhau yn uchel ar 344.5, ond dylai'r gwaith a wnaed yn 2018/19 i gwblhau achosion, arwain at well perfformiad yn 2019/20.

Amcan Llesiant – Diwylliant

Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.



Mae'r Tŷ Coginio newydd yng Nghastell Henllys yn disodli'r strwythur gwreiddiol, a adeiladwyd yn 1981.

Diogelwr Taith – Ble yr ydym ni nawr?

Cyfeiriad Teithio tuag at gyflawni ein Hamcan

Blwyddyn	Dechrau Arni	Gwneud Newidiadau Syml	Bod yn fwy Anturus	Yn Berchen ar ein Huchelgais	Arwain y Ffordd
2017/18			✓		
2018/19			✓		

1. Datblygu porth i'r Parc Cenedlaethol ac adnoddau dehongli i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd eu bod mewn Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Cynlluniau Dehongli

Mae'r tîm dehongli wedi comisiynu cynlluniau dehongli diwygiedig ar gyfer Gogledd a De Sir Benfro. Bydd pob cynllun yn asesu'r ystod lawn o wybodaeth a ddarperir gan APCAP (hysbysfyrddau, taflenni, cyfryngau cymdeithasol, ac ati) ac yn creu cynllun i

	foderneiddio a diweddarau ein dulliau cyfathrebu.
Maes Parcio Broad Haven	Fel rhan o waith yn y dyfodol ym maes parcio Broad Haven gwnaed awgrymiadau ar gyfer sut y gallai gynnwys gwell deunydd deongliadol a dod yn safle porth posib.

2. Ymgysylltu â phobl ynglŷn â'r gweithiau celf a arddangosir yn Oriel y Parc, a pharhau i gefnogi'r cynllun artist preswyl.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

4.5	sgôr gyffredinol Trip Advisor 2018/19 ar gyfer Oriel y Parc, yr un peth ag yn 2017/18.
21,949	Ymwelwyr a'r oriel yn Oriel y Parc yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 23,525 yn 2017/18, gostyngiad o 6.7%. Mae ffigurau safleoedd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (5.07%) ac mae'r ystadegau dros dro gan Amgueddfeydd ac Orielau a Noddir gan Lywodraeth y DU ar gyfer yr Orielau Tate rhanbarthol yn dangos cynnydd o 13% yn Oriel Tate St Ives a chynnydd o 9% yn Tate Lerpwl. ²
Arddangosfa Deluge	Fis Gorffennaf ac Awst 2018 cynhaliodd Oriel y Parc arddangosfa Artist Preswyl gan yr Athro Karen Ingham oedd yn cynnwys ffotograffiaeth, tecstilau digidol a gwahanol fathau o grefftiau. Yr ysbrydoliaeth i'r arddangosfa 'Y Dilyw' oedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r newid hinsawdd cefnforol. Roedd yn cynnwys delweddau pwerus oedd yn cymysgu delweddau microsgopig o blancion, patrymau ymddygiad pryfed yn peillio a symudiad y cefnforoedd.
Arddangosfa Yr Arfordir	Roedd Oriel y Parc wedi cynnal arddangosfa Yr Arfordir oedd yn dangos sut mae'r môr wedi ysbrydoli artistiaid ers canrifoedd a sut mae plastig wedi effeithio ar gelf a bywyd bob dydd. Roedd yn cyfuno gwaith celf a gwrthrychau naturiol o gasgliadau Amgueddfa Genedlaethol Cymru, gan gynnwys y morlun 'A Calm' gan Jan van de Cappelle (1624-1679) a sgerbwdd a chragen môr-grwban lledraidd a ddarganfuwyd ger Ynys Skomer.
Cytundeb Lefel Gwasanaeth	Roedd yr Awdurdod wedi gweithio gyda swyddogion Amgueddfa Genedlaethol Cymru i adolygu ac adnewyddu'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y ddau sefydliad.
Prosiect Criw Celf	Parhaodd Oriel y Parc i ymgysylltu ag ysgolion a chynyddu mynediad i'r Celfyddydau drwy brosiect Criw Celf a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys cynnal gweithdai

² Gov.Uk: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/museums-and-galleries-monthly-visits>

	gydag artistiaid i alluogi disgyblion archwilio ystod o dechnegau a sgiliau celf a chynnal arddangosfa o'u gwaith.
--	--

3. Hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd hanesyddol trwy Gastell Caeriw a Chastell Henllys, rhaglen ysgolion a digwyddiadau a gweithgareddau.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

4.5	sgôr gyffredinol Trip Advisor 2018/19 ar gyfer Caeriw a Chastell Henllys, yr un peth ag yn 2017/18.
1	categori Atyniad Ymwelwyr Gorau i Gastell a Melin Lanw Caeriw yng Ngwobrau Twristiaeth Sir Benfro 2018.
14,012	o gyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol yn 2018/19, cynnydd o 11,284 yn 2017/18.
4,058	o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn rhaglen addysg Castell Henllys yn 2018/19, sef gostyngiad o'r 4,479 o gyfranogwyr yn 2017/18
2,103	o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn rhaglen addysg castell Caeriw yn 2018/19, sef cynnydd o'r 1,795 yn 2017/18.
478	o bobl wedi cymryd rhan yn y Diwrnod Archaeoleg 'Cloddio'r Gorffennol': Antur Archaeolegol! yng Nghaeriw ac roedd 180 o bobl wedi mynychu'r diwrnod Archaeoleg Blynnyddol a gynhaliwyd yng Ngholeg Sir Benfro.
538	wedi mynychu penwythnos ar thema Rufeinig yng Nghastell Henllys oedd yn cynnwys Cymdeithas Hanes Byw Rhufeinig Legio VIII Augusta.

4. Cefnogi grwpiau cymunedol yn y Parc i adfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

128	o gymunedau safleoedd newydd wedi cymryd rhan drwy waith archaeolegydd cymunedol yr Awdurdod yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 116 yn 2017/18.
Arwyr Amser	Mae Archaeolegydd Cymunedol yr Awdurdod yn gweithio gyda'r ysgolion lleol i gyflawni'r Prosiect Gwarcheidwaid Treftadaeth sydd bellach hefyd yn rhan o brosiect y Preseli 'Ein Cymdogaeth Werin'. Drwy'r prosiect hwn mae ysgolion cynradd lleol yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu hannog a'u cefnogi i 'fabwysiadu' heneb treftadaeth leol lle gallant helpu i wella golwg yr heneb, gwella mynediad, ennyn ymwybyddiaeth, monitro a dehongli'r safle. Mae pob ysgol yn cynhyrchu math o ddehongliad ar gyfer y safleoedd yr oeddent wedi ymweld â hwy neu ddysgu amdanynt. Er enghraifft, roedd disgyblion Bro Ingli wedi cynhyrchu posteri am Carreg Coetan Arthur a'r Hen Gastell yn ogystal â rhai ffilmiau dogfen ar eu

	iPads; roedd ysgol Cas-mael wedi cynhyrchu sioe radio ddogfenol am Wersyll y Wern a Chastell Mael yn ogystal â phosteri, ac roedd ysgol Llanychllwydog wedi cynhyrchu, actio a ffilmio ffilm am y pentref o'r Oes Haearn yn Allt Pengegin.
10	mlynedd o gloddio yn Nanhyfer, a ddaeth i ben yn 2018/19. Prynwyd Castell Nanhyfer, sy'n Heneb Restredig, gan Gyngor Cymuned Nanhyfer yn 1980 er budd y gymuned leol ac ymwelwyr. Ffurfiwyd partneriaeth rhwng Cyngor Cymuned Nanhyfer, yr Awdurdod ac Adran Archaeoleg Prifysgol Durham, i ymchwilio i'r castell a gwneud gwaith cloddio. Roedd wardeniaid gwirfoddol yr Awdurdod wedi cymryd rhan yn y gwaith o glirio 'banc Sir Benfro' yng nghastell Nanhyfer i baratoi ar gyfer y cloddio.
Castell Henllys – Tŷ coginio	Roedd cyfranogwyr o Fferm Gofal Clynyfw, Plas Dwbl, gwirfoddolwyr Llwybrau, wardeniaid gwirfoddol a myfyrwyr coleg Sir Benfro wedi bod yn rhan o addurno'r tŷ crwn newydd yng Nghastell Henllys. Cynhaliwyd agoriad swyddogol i ddathlu'r tŷ crwn cyntaf oedd wedi cael ei ailadeiladu ar gyfer y gwirfoddolwyr oedd wedi cynorthwyo yn y gwaith o'i adeiladu.

5. Cyngori perchnogion adeiladau a safleoedd hanesyddol ar reoli.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

4.8%

o adeiladau hanesyddol mewn perygl yn 2018/19, gostyngiad o 5.5% yn 2017/18.

6. Annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg yn y gweithle, ac i ymgysylltu â cwsmeriaid a chyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

54	Gweithgareddau a digwyddiadau a ddarparwyd yn Gymraeg yn 2018/19 o'i gymharu â 34 yn 2017/18, cynnydd o 59%.
622	o gyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau a ddarparwyd yn Gymraeg yn 2018/19, o'i gymharu â 307 yn 2017/18, cynnydd o 103%.
22	o sesiynau gwirfoddoli gyda Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd a hwyluswyd yn Gymraeg.
1	gweithgaredd Parcmon Haf ar y traeth gyda Grŵp Dysgwyr Cymraeg.
2	daith dywys Gymraeg o amgylch Castell Caeriw gyda 10 yn bresennol ar draws y 2 daith.
1	daith gerdded Gymraeg i ddysgwyr ym Mhentre Ifan gyda Menter Iaith.
12	o ddigwyddiadau a gweithgareddau Archaeoleg Gymunedol ar waith safle a hwyluswyd yn Gymraeg.

1	daith o amgylch Castell Henllys ar gyfer Grŵp Treftadaeth Tafarn Sinc yn Gymraeg.
95	o sesiynau'r rhaglen addysg a gyflwynwyd yn Gymraeg yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 55 yn 2017/18, cynnydd o 73%. Mae hyn yn rhannol yn amlygu mwy o weithio gydag ysgolion yn Gymraeg yn sgîl y prosiect Gwarcheidwad Treftadaeth a gyflwynwyd gan Archaeolegydd Cymunedol yr Awdurdod.
2, 713	wedi mynychu sesiynau'r rhaglen addysg a gyflwynwyd yn Gymraeg yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 1,433 yn 2017/18, sef cynnydd o 47%.

Cyfleoedd Gwella: Iaith Gymraeg a Gwella Sgiliau Staff

Mae strategaeth yr Iaith Gymraeg yn cefnogi cyflwyno camau gweithredu sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y prosiectau a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi gweld y fantais o gael staff dwyieithog yn cyflawni gwaith ymgysylltu â'r gymuned mewn meysydd megis archaeoleg gymunedol a'r Parcmyn Haf yng Ngogledd a De'r Parc. Mae hyn wedi cynyddu nifer y gweithgareddau rhyngweithio, y digwyddiadau a'r gweithgareddau y gall yr Awdurdod eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr Awdurdod, yn unol â'i Strategaeth Iaith Gymraeg, yn mynd ati i gynyddu gwybodaeth a hyder y staff i siarad Cymraeg drwy hyrwyddo cwrs ar-lein Cymraeg Gwaith a datblygu cynllun mentora staff yn Gymraeg. Mae diwrnod hyfforddi 'Cymraeg yn y dirwedd' ar gyfer gwirfoddolwyr a staff yn cael ei drefnu i'w gyflwyno yn gynnar yn 2019/20.

Amcan Llesiant – Byd Eang

Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.



Y Gwibiwr Strwmbl un o'r Bysiau Arfordirol

Diogelwr Taith – Ble yr ydym ni nawr?

Cyfeiriad Teithio tuag at gyflawni ein Hamcan

Blwyddyn	Dechrau Arni	Gwneud Newidiadau Syml	Bod yn fwy Anturus	Yn Berchen ar ein Huchelgais	Arwain y Ffordd
2017/18			✓		
2018/19			✓		

1. Defnyddio grantiau Cronfa Datblygu Gynaliadwy i annog prosiectau arloesol sy'n cefnogi cynaliadwyedd ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

24.10%

wedi'i ymrwymo o gyllideb Cronfa Datblygu Gynaliadwy yn 2018/19. Mae hyn yn amlygu'r newidiadau mewn personél a ddigwyddodd yn ystod 2018/19. Cytunodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i PLANED weinyddu'r gronfa o ddydd i ddydd ar sail prawf am gyfnod o 15 mis. Gweinyddir y Grant Bach Gwyrdd cysylltiedig ar ran yr Awdurdod gan PAVS.

Rhai o'r prosiectau y gwnaethom barhau i'w cefnogi trwy'r grant datblygu cynaliadwy yn 2018/19:

Canolfan Gymunedol Brynberian

Nod y prosiect hwn yw adnewyddu canolfan gymunedol Brynberian, gan gynnwys creu Canolfan Dreftadaeth newydd, fydd yn ganolbwynt cymdeithasol cynaliadwy, addas i'r diven, ar gyfer y pentref a'r ardal gyfagos.

Coleg y Môr Cam 2

Nod y prosiect hwn gan Sea Trust yw adeiladu ar lwyddiant eu prosiect Cam 1 drwy ehangu eu gweithgareddau addysgol awyr agored a hefyd arallgyfeirio i weithgareddau eco-dwristiaeth.

2. Hyrwyddo dulliau carbon niwtrol as effeithlonrwydd adnoddau yn ein gwaith ac o fewn y Parc.


Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Allyriadau Carbon):

898,479 kg

o allyriadau carbon yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 946,712 yn 2017/18 ac mae'n ostyngiad o 5%.

Ffynhonnell o allyriadau CO2



Dadansoddiad o ffigurau Allyriadau CO2 a chroes gymhariaeth

- Mae'r dull cyfrifo wedi'i seilio ar gyfrifiannell carbon DEFRA a ddefnyddir hefyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Noder nad yw'r ffigur hwn wedi'i wirio'n annibynnol.
- Cyfrifo Trafnidiaeth Uniongyrchol – mae'r milltiroedd a deithiwyd gan bersonél yr Awdurdod wedi gostwng 17,984 milltir o 357,075 i 339,091.
- Cyfrif trafnidiaeth anuniongyrchol - mae'r milltiroedd yr oedd y cyflenwyr wedi eu teithio wedi cynyddu ychydig ond nid yn sylweddol, sef cynnydd o 1049 milltir o 106,594 i 107,643.
- Cynyddwyd y defnydd o drydan ychydig, oherwydd cynnydd yng Nghastell Caerw ac yng Nghastell Henllys. Yng Nghaerw mae hyn yn amlygu effaith agor y Caffi fis Gorffennaf 2018.
- Gostyngwyd y defnydd a wnaed o ddŵr.
- Gostyngwyd y defnydd o olew yn sylweddol ym Mhant-glas. Arhosodd y defnydd o LPG yng Nghastell Henllys yr un peth oherwydd diffyg gwybodaeth gan fasnachfaint y caffi.
- Bu nifer o newidiadau o fewn y gadwyn gyflenwi sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol.
- Bu newidiadau sylweddol yn yr oergelloedd oherwydd cau swyddfeydd Dinbych-y-pysgod a Threfdraeth ac agor yr ystafell de yng Nghaerw.

Mae gan Lywodraeth Cymru darged i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn niwtral

o ran carbon erbyn 2030. Roedd ei Ddatganiad Ysgrifenedig Gwerthfawr a Chydnerth yn amlygu ynni gwyrdd a datgarboneiddio fel un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Ar lefel genedlaethol Cymru mae gwaith yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Carbon allai ddylanwadu ar ddulliau cyfrifo yn y dyfodol wrth i'r rhain gael eu safoni er mwyn datblygu llinell sylfaen i'r Sector Cyhoeddus fonitro cynnydd yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru o dan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cyfarfu swyddogion â chynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth Carbon sy'n ymwneud â'r gwaith hwn yn 2018/19 i drafod dulliau cyfredol yr Awdurdod. Ar lefel leol mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro brosiect sy'n canolbwyntio ar Sir Benfro yn dod yn Sir Carbon Niwtral.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

26,736	KwH o ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd o baneli ffotofoltäig Llanion ac Oriel y Parc yn 2018/19, o'i gymharu â 27,253 yn 2017/18.
3	Gwobrau Agoriad Gwyrdd wedi'u cyflawni ar gyfer canolfannau'r Awdurdod - Castell Henllys, Caeriw ac Oriel y Parc.
Prosiect Gorsaf Ail-lenwi Dŵr	Derbyniodd yr Awdurdod gyllid TAIS yn 2018/19 i'w alluogi i dreialu a datblygu darpariaeth gorsafoedd ail-lenwi poteli dŵr yn y Parc. Roedd APCAP a Danfo wedi cynnal arolygon safle yn 2018/19 i glustnodi safleoedd posibl, ac mae Maes Parcio Nolton Haven wedi'i glustnodi fel yr orsaf gyntaf i'w sefydlu yn ystod Hydref 2019.
Mentrau Staff	Mae'r staff wedi arwain mentrau o newidiadau syml o fewn yr Awdurdod sydd wedi amrywio o gynnal Basâr Llurs er mwyn galluogi staff i werthu nwyddau diangen a'u harbed rhag mynd i safleoedd tirlenwi, i gasglu pecynnau creision i'w hailgylchu yn Llanion.

Cyfleoedd Gwella: Adolygiad o bolisi Amgylcheddol

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn adolygu ei bolisi amgylcheddol ac mae wedi clustnodi bod angen mabwysiadu dull mwy integredig a strategol o sicrhau bod y polisi mewn gwirionedd yn cael ei roi ar waith. Yn 2018/19 roedd yr Awdurdod wedi rhoi contract i gwmni Rheoli Fflyd i reoli fflyd yr Awdurdod, a bydd agwedd o hyn yn cynnwys edrych ar Wyrddio'r Fflyd.

3. Hyrwyddo cludiant cynaliadwy o fewn y Parc.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cydweithio.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Bwyntiau Gwefru	Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i ddatblygu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y
------------------------	---

Cerbydau Trydan	Parc ac ar draws Sir Benfro. Bu'r Awdurdod yn cynnal archwiliad o'r safleoedd meysydd parcio i weld pa mor addas fyddai clustnodi safleoedd posibl yn ardal y Parc. Mae caffael a darparu pwyntiau newydd gwefru cerbydau trydan wedi'i gario ymlaen i 2019/20.
Gwasanaeth Bws Arfordir	Parhaodd yr Awdurdod ei ymrwymiad ariannol trwy Bartneriaeth Lonydd Glas i'r Gwasanaeth Bws Arfordir Sir Benfro yn 2018/19. Mae'r gwasanaethau bysiau arfordirol yn galluogi pobl i gael mynediad i rannau anghysbell a gwahanol rannau o'r arfordir drwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

4. Addysgu disgyblion ysgol, cymunedau ac ymwelwyr am Rinweddau Arbennig y Parc

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor.Atal. Cydweithio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:	
10	Sgôr adborth ysgolion ar gyfartaledd (1-11) yn 2018/19. Cynnydd bach ar 9.9 yn 2017/18 ac ar y targed. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: 10.
10,821	Plant ysgol a phobl ifanc sy'n ymwneud â'r rhaglen addysg yr Awdurdod yn 2018/19, cynnydd o 10,448 yn 2017/18. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: 7,756.
Ffyrdd newydd o weithio - Cwricwlwm newydd	Mae'r Awdurdod wedi dechrau ar y broses yn 2018/19 o adolygu'r addysg a gynigir i sicrhau ei fod yn ymateb i ac yn cyd-fynd â "Dyfodol Llwyddiannus" Cwricwlwm newydd Cymru fydd ar gael yn 2020 ac yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru erbyn 2022. Yn fis Ionawr 2019 cynhaliwyd gweithdy fel rhan o'r broses hon gan ddod â staff addysg o bob rhan o'r Awdurdod at ei gilydd.
10.4	Sgôr adborth y cyhoedd (1-11) yn 2018/19. Cynnydd bach ar 10.2 yn 2017/18 ac uwchlaw'r targed o 10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: 10.
32,150	Cyfranogwyr yn rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus yn 2018/19, cynnydd o 24,220 yn 2017/18.
Ymwybyddiaeth am Sbwriel Morol	Ar gyfer Blwyddyn y Môr Croeso Cymru, roedd yr Awdurdod wedi comisiynu artist lleol i wneud cerfluniau o greaduriaid y môr - tri dolffin, llurs enfawr a physgodyn. Roedd y dolffiniaid yn llawn sbwriel morol gweladwy ac yn cael eu cludo i wahanol leoliadau a gweithgareddau drwy gydol 2018/19, ynghyd â bwrdd dehongli, i ledaenu neges cadwraeth ein moroedd a'n glannau.

Gwneud Gwahaniaeth: Sesiynau Addysg Plastig Morol

Roedd Parcmon y Gogledd Orllewin a Parcmon Addysg yr Awdurdod wedi datblygu sesiwn addysg Plastig Morol i'w chyflwyno yn yr arddangosfa O Amgylch yr Arfordir yn Oriel y Parc. Roedd hyn yn enghraifft dda o weithio traws-tîm yn yr Awdurdod a defnyddio deunyddiau dehongli arddangosfeydd i wella profiadau dysgu.

Roedd y sesiwn diwrnod llawn yn gyfle i ddisgyblion ymchwilio i doreth plastig fel deunydd, sut mae'n mynd i'r amgylchedd a ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem. Roedd y disgyblion wedi mwynhau archwilio'r gweithiau celf ac arddangosfeydd hanes natur yn yr oriel cyn gweithio ar eu gwaith celf eu hunain. Daeth y sesiwn i ben gydag ymweliad â thraeth i ymchwilio i lygredd gweladwy a micro blastig.

Crëwyd y sesiwn i wneud y mwyaf o'r arddangosfa ond hefyd ymateb i nifer o ysgolion sy'n defnyddio llygredd morol fel pwnc yn eu dysgu. Cafodd 13 o ysgolion a bron i 500 o ddisgyblion eu denu i ddod i'r sesiwn. Llwyddodd y mwyafrif i elwa o'r bwrsariaeth deithio a greodd yr Awdurdod o'r cyllid a gafodd gan Sykes/Forest Holidays.

Adborth o'r llyfr ymwelwyr yn Arddangosfa'r Arfordir yn Oriel Y Parc:

"Arddangosfa ryfeddol yn cyfuno harddwch y byd naturiol â realiti didostur yr argyfwng plastig"

""Mae cymaint o blastig yn y môr. Mae wedi gwneud i mi fod eisiau gwirfoddoli i lanhau'r traethau"

"Rwyf wrth fy modd â'r ffordd y mae wedi'i gyflwyno i ysbrydoli pobl i ofalu am y blaned"

"Wedi'i gyflwyno'n hyfryd - yn herio'r ymwelydd yn dawel bach ond yn effeithiol i newid"

"Yn taro'r neges ar ei phen am y difrod a achosir gennym i'n harfordir. Da iawn."

"Pwnc trafod rhagorol i ni fel teulu"

Cyfleoedd Gwella: Gwobr Deuluol John Muir.

Yn 2018/19 ni ddyfarnwyd unrhyw Wobr Teulu John Muir gan yr Awdurdod, ac nid oedd hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn 2017/18. Mae'r swyddogion yn cydnabod bod y model presennol o gyflwyno Gwobrau Teulu John Muir yn methu â denu nifer y

cyfranogwyr a ragwelwyd yn wreiddiol. Am y rheswm hynny y bwriad yw adolygu'r modd y cynigir y wob'r i'r cyhoedd.

5. Cynnwys pobl mewn gwyddoniaeth dinasyddion trwy gofnodi newid i dirwedd, bioamrywiaeth a henebion yn y Parc

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

730	Changing coast photo submissions in 2018/19, compared to 629 in 2017/18, a 16% increase. Mae'n gadarnhaol gweld bod y cyhoedd yn cyflwyno lluniau o flwyddyn i flwyddyn i'r prosiect sy'n crisialu'r newid yn ein harfordir o wahanol leoliadau ar hyd llwybr yr arfordir.
Monitro Safleoedd Treftadaeth	Yn dilyn llwyddiant y Prosiect Ffotograffau Newid yn yr Arfordir, bu'r Awdurdod yn ystyried a ellid efelychu dull tebyg gyda safleoedd treftadaeth. Rhoddwyd postyn ar safle i brofi hyn. Roedd y safle mewn lleoliad anghysbell ac ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau. Fodd bynnag, datblygwyd dulliau eraill o fonitro newidiadau mewn safleoedd treftadaeth. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gyda Wardeniaid Gwirfoddol yn eu cyflwyno i dechnegau cloddio archaeolegol ac adnabod arteffactau yn ogystal â chofnodi safle. Hefyd mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Dyfed Powys ar y Bartneriaeth Gwarchod Treftadaeth sydd wedi cynnwys ymweliadau ar y cyd a gweithgareddau cyswllt â chymunedau.
135	Diwrnodau gwirfoddoli yn 2018/19 yn ymwneud ag arolygu a fonitro cadwraeth bywyd gwyllt. Roedd hyn yn cynnwys arolygon ymlusgiaid, cyfrif adar tir fferm a thrawsluniau glöynnod byw a chymryd rhan yn arolwg Ticiwch Iechyd Cyhoeddus Cymru a Lloegr.
12	o Gofnodwyr Sirol wedi'u croesawu i'r Ardal Cadwraeth Natur yn LNG South Hook fis Mehefin. Mae'r ardal cadwraeth natur yn rhan o gytundeb Adran 106 ac rydym wedi bod yn gweithio law yn llaw â South Hook i sicrhau bod y safle yn cael ei bori a'i reoli. Er gwaethaf diwrnod o dywydd gwael iawn, cofnodwyd glöynnod byw Glesyn Serennog sy'n löyn prin iawn yn Sir Benfro. Yn flaenorol, cofnodwyd y glöyn byw mewn 2 leoliad ar y safle, a bellach mae'n ymddangos bod y glöyn wedi lledaenu ar draws y safle. Gallai'r safle ddod yn un o'r safleoedd mwyaf y glöyn byw hwn yn y sir.
Prosiect Deall Ecosystemau – Monitro	Cymerodd yr Awdurdod ran yn y Prosiect Deall Ecosystemau drwy ddau o'i safleoedd, Llanion a Chastell Henllys, yn gweithredu fel canolfannau benthyca synhwyrdd ystlumod y

Ystlumod	gallai pobl eu harchebu ar-lein. Mae'r cyhoedd yn benthycu pecyn synhwyrdd ystlumod o'r ganolfan fenthycu ac yn rhoi'r synhwyrdd allan mewn lleoliad o'u dewis am ychydig nosweithiau i recordio galwadau adleoli'r ystlum yn awtomatig. Wedyn mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod yn dadansoddi'r recordiadau ac yn anfon adroddiad yn ôl yn clustnodi pa ystlumod a gofnodwyd, ac arwydd o lefel y gweithgaredd. Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod mewn partneriaeth â Grwpiau Ystlumod Sir Benfro a Gwynedd, a ariennir yn rhannol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i fonitro ystlumod ar ei safle yng Nghaerlwr.
Cacwn	Cynhaliodd APCAP ac Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn ddiwrnod hyfforddi ar gyfer pentref Brynberian, fel cyflwyniad i gacwn ac fel man cychwyn ar gyfer gwaith arolygu pellach yn yr ardal.

6. Gweithio'n fewnol a gydag eraill i ymateb i risgiau newid yn yr hinsawdd.

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:	
Asesiad Risg Newid Hinsawdd	Mae'r Awdurdod yn ymwneud â'r Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro drwy waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro. Mae'r asesiad yn un o'r wyth prosiect integredig a glustnodwyd gan y Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydlynu'r prosiect ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
Ymateb i effaith Tywydd Niweidiol	Fel rhan o'r prosiect parc digidol mae gwaith yn cael ei wneud i ddigideiddio ein proses gyfredol o ran ymateb i effaith tywydd garw. Bydd hyn yn gymorth i fonitro effaith tywydd garw a monitro ein hymateb. Fel rhan o hyn, mae gwaith parhaus yn cael ei wneud ar adolygu gweithdrefn safonol yr Awdurdod o archwilio coed, sbardunau tywydd a gwiriadau seilwaith. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bydd yn cario ymlaen i 2019/20.
Cynllun Ymddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd	Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru wedi rhoi ymateb ar ran y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynllun Ymaddasu i Newid Hinsawdd Drafft ar gyfer Cymru.

Llywodraethu Effeithiol a Chynaliadwyedd Ariannol

1. Swyddfa Archwilio Cymru a 5 Ffyrdd o Weithio

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Gwaith Peilot Swyddfa Archwilio Cymru

Yn 2016/17 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru arolwg a gweithdai gyda'r staff a'r Aelodau fel rhan o waith peilot y Swyddfa Archwilio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel rhan o hyn gwnaed nifer o argymhellion i'r Awdurdod ar feysydd i'w gwella. Yn ystod 2018/19 mae nifer o weithgareddau wedi cyfrannu at y meysydd gwella hyn gan gynnwys treialu cylchlythyr mewnol, gwaith y grŵp cynllun gweithredu ar ymgysylltu, gwaith i ddatblygu gwefan newydd a'r gwaith archwilio safle mynediad a dehongli.

Partneriaethau a Chydweithio

Yn 2018/19 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o bartneriaethau a chydweithredu er mwyn ateb y cwestiynau a ganlyn: 'A yw'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn rheoli partneriaethau a chydweithredu yn gynaliadwy ac yn effeithiol?' Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar y Fforwm Mynediad Lleol a Phartneriaeth Natur Sir Benfro. Bydd canfyddiadau'r gwaith archwilio hwn yn llywio adolygiad o'n partneriaethau cyfredol sydd i'w gynnal yn 2019/20.

2. Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Dynodedig

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Gwerthfawr a Chydnerth

Fis Gorffennaf 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei ddatganiad blaenoriaethau ar gyfer Tirweddau Dynodedig o'r enw "Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol." Ystyriwyd y blaenoriaethau sydd yn y ddogfen hon wrth ddrafftio cynllun Corfforaethol ac Adnoddau'r Awdurdod 2019/20.

Rheoli Tir

Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru wedi rhoi ymateb ar ran y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ar ei ymgynghoriad ar "Brexid a'n tir: sicrhau dyfodol ffermio Cymru". Hefyd roedd Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

3. Hyrwyddo Gweithle iach a Monitro Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

7.9	o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd salwch fesul cyfwerth ag amser llawn yn 2018/19. Mae hyn yn gynnydd o 5.9 yn 2017/18 â 7.8 yn 2016/17. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 8.9.
0	RIDDOR – (Digwyddiadau a gofnodwyd) yn 2018/19, yn unol â'r targed 0 a pharhad o 0 digwyddiad yn 2017/18. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 0.
2	Damweiniau (Anafiadau) absenoldeb dros 3 diwrnod/ hyd at 7 diwrnod yn 2018/19Mae hyn yn uwch na'r targed 0 a chynnydd ar y 0 digwyddiad yn 2017/18. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 0.
21	Digwyddiadau mân ddamweiniau (Anafiadau) a adroddwyd yn 2018/19, mae hyn yn ostyngiad bach ar y 22 a adroddwyd yn 2017/18.
15	Digwyddiadau difrod i gerbydau a adroddwyd yn 2018/19, mae hyn yn gynnydd bach ar 12 a adroddwyd yn 2017/18.
0	Achosion o wrthdaro a gofnodwyd yn 2018/19, mae hyn yn cymharu â 1 cofnod yn 2017/18.
0	Achosion diogelu a gofnodwyd yn 2018/19, yr un nifer â 2017/18.
Straen Cysylltiedig â Gwaith	Fel rhan o Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Straen fis Mai 2018 roedd staff yn gallu cofrestru a chymryd rhan mewn modiwl ar-lein drwy Gyngor Sir Penfro. Mae arweinwyr tîm wedi mynychu gweithdai ar straen sy'n gysylltiedig â gwaith ac yn gweithio gyda'u timau ar asesiadau risg straen.
Eistedd yn Llai, Symud Mwy	Roedd y swyddogion a wirfoddolodd i weithio ar y fenter Eistedd Llai, Symud Mwy wedi trefnu digwyddiad oedd yn her i staff mewn swyddi mwy eisteddog i symud mwy. Cafodd gweithgareddau a chanfyddiadau'r fenter Eistedd Llai, Symud Mwy eu hystyried mewn fforwm Gweithwyr gyda'r Aelodau a'r staff yn bresennol.

4. Datblygu Sgiliau Aelodau

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

Pwyllgor Datblygu Aelodau	Cytunodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i sefydlu Pwyllgor Cymorth a Datblygu Aelodau yn 2018/19 i hyrwyddo'r gwaith o gynorthwyo a datblygu Aelodau, a'r gwaith oedd angen ei wneud i lwyddo i gyflawni'r Siarter Aelodau.
80.21%	presenoldeb Aelodau yn ystod 2017/18, cynnydd ar 78.88% yn 2017/18 ac yn uwch na'r targed o 75%. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 83%.

68.69%

Presenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant yn ystod 2018/19, cynnydd ar 63.78% yn 2017/18 ac yn uwch na'r targed o 65%. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 64.66%.

5. Cydymffurfio â Gofynion Deddfwriaethol

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Atal. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Welsh Language and Equality):

Safonau'r Gymraeg	Cynhyrchwyd adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg yr Awdurdod a chymeradwywyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd Cymraeg.
0	Complaints relating to Welsh language made to the Authority in 2018/19, mae hyn yr un peth ag yn 2017/18.
0	cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch methiant honedig i gydymffurfioâ Safonau'r Gymraeg yn 2018/19, yn unol â'i darged 0.. Roedd un gŵyn yn 2017/18 . Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: 0.
33%	of new and vacant posts advertised Welsh language essential in 2018/19. Gostyngiad o 5% ar 38% yn 2017/18.
Siopa Diregel	Derbyniodd yr Awdurdod adborth gan y Comisiynydd Iaith Gymraeg ar fonitro a gweithgaredd siopa dirgel y cyflawnodd yn 2017/18.
Adolygiad Cynllun Cydraddoldeb	Yn 2019/20 bydd yr Awdurdod ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yn adolygu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol a'i Amcanion. I fraenaru'r tir, yn 2018/19, bu'r Awdurdod a chyrff cyhoeddus eraill ledled Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Phowys yn cyfarfod i wneud gwaith cychwynnol i ddatblygu arolwg ymgynghori amlasiantaethol a gweithgareddau ymgysylltu.

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19 (Cwynion, Ceisiadau a Diogelu Data):

8	wyn a dderbyniwyd yn 2018/19, yr un nifer ag yn 2017/18. Roedd y mwyafrif yn ymwneud â chynllunio, ac ymdriniwyd ag un gŵyn yn ymwneud â cheisiadau am swydd.
100%	Yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol yn 2018/19, yr un peth â 2017/18. Derbyniwyd 10 cais rhyddid gwybodaeth yn 2018/19 sy'n cymharu ag 11 yn 2017/18.
100%	Yr ymatebion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn y terfyn amser gofynnol yn 2018/19, yr un peth â 2017/18. Gwelodd 2018/19 gwmp mewn ceisiadau rheoleiddio amgylcheddol, gyda 5 cais yn cael eu gwneud o gymharu ag 17 yn 2017/18.

0	cais am fynediad at ddata gan y testun yn 2018/19, yr un peth â 2017/18.
Diogelu Data - Atebolrwydd	Mae'r Awdurdod wedi parhau i wreiddio a gwella ei ddull o gydymffurfio â diogelu data yn dilyn Deddf Diogelu Data 2018 a'r rheoliad GDPR yn dod i rym. Mae gan yr Awdurdod Swyddog Diogelu Data wedi'i benodi, mae ei hysbysiad preifatrwydd trosfwaol ar wefan yr Awdurdod, ac mae fframwaith Asesu Effaith Diogelu Data yn ei le. Yn 2019/20 bydd yr Awdurdod yn adolygu ei bolisi defnyddwyr TGCh a'i Bolisi Diogelwch Gwybodaeth a Data.
Gweithio gyda Staff - Caniatâd Lluniau	Gwnaed gwaith gyda staff o bob rhan o'r Awdurdod i ddatblygu dull safonol o sicrhau caniatâd ar gyfer ffotograffau a ffilmiau sy'n cynnwys unigolion. Datblygwyd ffurflen caniatâd corfforaethol newydd a rhoddwyd protocolau cysylltiedig ar dynnu lluniau a ffilmiau a'u storio ar waith.

Cyfleoedd Gwella: Cyfathrebu pholisïau

Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod polisïau a safonau corfforaethol yn glir ac yn cael eu cyfleu yn effeithiol i'r staff. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal yn 2019/20 i gefnogi hyn.

6. Cynnal y gwaith o fonitro'r cyfryngau

Ffyrdd o Weithio: Atal. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

99.51%

Y sylw cadarnhaol neu niwtral yn y cyfryngau yn 2018/19. Cynnydd bach ar 99.45% yn 2017/18 ac yn uwch na'r targed o 80%.

7. Codi arian o ffynonellau eraill

Ffyrdd o Weithio: Hirdymor. Cydweithio. Integreiddio. Cynnwys

Yr hyn a wnaethom ac a gyflawnwyd gennym yn 2018/19:

£235,528

Wedi'i gynhyrchu o nwyddau yn y Canolfannau yn 2018/19, gostyngiad o 3% ar £243,080 yn 2017/18.

£204,552

Wedi'i gynhyrchu o tâl mynediad yn Caeriw a Castell Henllys yn 2018/19, gostyngiad o 10% ar £226,558 yn 2017/18.

£74,610

Wedi'i gynhyrchu o incwm arall yn y Canolfannau (gan gynnwys sesiynau ysgol a digwyddiadau a gweithgareddau) yn 2018/19, cynnydd o 5% ar £ 71,084 yn 2017/18.

Dull Strategol

Datblygwyd proses o flaenoriaethu prosiectau ar gyfer mynd ar drywydd cyfleoedd cyllido prosiectau sy'n cyflawni polisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Amcanion Llesiant

	Corfforaethol. Mae strategaeth codi arian a chronfa ddata cefnogwyr hefyd ar waith.
Sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol	Cefnogodd yr Awdurdod waith i sicrhau bod y seilwaith sy'n ofynnol ar gyfer elusen drefnus a llywodraethol ar waith ar gyfer Ymddiriedolaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro cyn ei lansio yn 2019/20. Roedd hyn yn cynnwys cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, penodi ymddiriedolwyr ac ymddiriedolwyr yn cyfarfod i gytuno ar gynlluniau polisi, proses a gweithredol. Mae'r elusen wedi sicrhau ei grant cyntaf o £ 10,000 gan Dŵr Cymru, tuag at waith Rhywogaethau Anfroddorol Ymledol.

Atodiad 1: Data a Dadansoddiad Cydraddoldeb Recriwtio a Gweithlu

Nodyn ar Ddata: I alinio ag adroddiadau ffynhonnell ddata agored Llywodraeth Cymru, trwy'r tablau canlynol, mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae'r ffigurau o dan 5 wedi'u hatal ac yn cael eu dynodi gan *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu a lle mae'r ffigurau'n is na 5 y ganran gyfatebol wedi'u hatal a'u dynodi gan *. Efallai na fydd cyfanswm yn swm oherwydd talgrynnu. Mae data'r gweithlu yn seiliedig ar nifer y bobl o'r dyfyniad diwedd mis ar 31 Mawrth 2019, o ganlyniad ni fydd rhai gweithwyr tymhorol yn cael eu dal yn y ffigurau. Bydd y gwaith cyfredol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar adrodd ar ffynonellau data agored yn cynorthwyo'r Awdurdod i allu meincnodi ei recriwtio a'i amrywiaeth yn y gweithlu yn erbyn cyrff cyhoeddus eraill yn y dyfodol.

Recriwtio

Cyflwynodd yr Awdurdod system recriwtio ar-lein newydd yn 2018/19.

Nifer y Ceisiadau am Swydd yn Gyffredinol

2016/17	2017/18	2018/19
450	310	590

Sylw: Hysbysebwyd 36 o swyddi gwag yn 2018/19 o gymharu â 26 yn 2017/18, cynnydd o 38%.

Ymgeiswyr am Swyddi: Oedran

Oedran*	2016/17	2017/18	2018/19
30 mlynedd ac iau	29% (130)	32% (100)	25% (150)
31– 40	20% (90)	19% (60)	20% (120)
41 – 50	18% (80)	16% (50)	20% (120)
51 – 59	16% (70)	13% (40)	20% (120)
60 and Over	2% (10)	6% (20)	3% (20)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	13% (60)	10% (30)	10% (60)

Sylw: * Cyflwynwyd categorïau oedran newydd o'r 1af o Ionawr 2018 ac o ganlyniad gallai hyn effeithio ar gywirdeb ffigurau ymgeiswyr o oedrannau ar y ffin rhwng dau gategori. Bu gostyngiad yn% yr ymgeiswyr o dan 30 a thros 60 oed. Fodd bynnag, mae nifer yr ymgeiswyr yn parhau i fod ar eu huchaf ar gyfer y grŵp oedran dan 30 o gymharu â cromfachau oedran eraill. Mae angen gwaith pellach i edrych ar lwybrau mynediad i gyflogaeth gyda'r Awdurdod ar gyfer swyddi nad ydynt yn dymhorol i bobl dan 30 oed gan gynnwys manylebau swyddi a phrosesau recriwtio. Bu cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr 31-59 oed.

Ymgeiswyr am Swyddi: Rhywedd Geni

Rhywedd Geni	2018/19
Yr un peth	90% (530)

Nid yr un peth	* (*)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	10% (60)

Sylw: Dechreuodd yr Awdurdod gasglu'r data hwn o fis Ionawr 2018 ar gyfer ymgeiswyr am swyddi o ganlyniad nid oes data tebyg ar gael ar gyfer 2017/18.

Ymgeiswyr am Swyddi: Anabledd

Anabledd	2016/17	2017/18	2018/19
Wedi nodi fel un sydd ag anabledd	2% (10)	* (*)	3% (20)
Wedi nodi fel un sydd heb anabledd	89%(400)	87% (270)	85% (500)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	9% (40)	13% (40)	10% (60)

Sylw: Bu cynnydd bach ar 2017/18 yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi sy'n nodi bod ganddynt anabledd a chynnydd bach yn nifer y bobl sy'n darparu'r wybodaeth hon.

Ymgeiswyr am Swyddi: Ethnigrwydd

Ethnicity	2016/17	2017/18	2018/19
Gwyn	89% (400)	87% (270)	88% (520)
Ethnigrwydd Arall	* (*)	* (*)	* (*)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	11% (48)	13% (40)	12% (70)

Sylw: Er nad yw 11 -13% o ymgeiswyr dros y blynyddoedd wedi datgan na darparu'r wybodaeth hon, mae'r data sydd ar gael yn awgrymu mai ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn, sy'n parhau i fod yn isel, a bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn dod o gefndir ethnig Gwyn. Mae'r lefel isel o ymgeiswyr am swyddi o Gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn yn ei gwneud yn llai tebygol y gall yr Awdurdod gynyddu amrywiaeth ethnig yn y gweithlu ac mae angen gwaith pellach i gynyddu nifer yr ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn.

Ymgeiswyr am Swyddi: Crefydd neu Gred

Crefydd neu Gred	2018/19
Dim Crefydd/ Cred	51% (300)
Cristongaeth	27% (160)
Crefydd/ Cred Arall	3% (20)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	19% (110)

Sylw: Dechreuodd yr Awdurdod gasglu'r data hwn o fis Ionawr 2018 ar gyfer ymgeiswyr am swyddi o ganlyniad nid oes data tebyg ar gael ar gyfer 2017/18.

Ymgeiswyr am Swyddi: Rhyw

Rhyw	2016/17	2017/18	2018/19
Menyw	37% (170)	35% (110)	47% (280)
Gwryw	62% (280)	61% (190)	51% (300)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	* (*)	* (*)	2% (10)

Sylw: Bu cynnydd yn % y ceisiadau gan fenywod yn 2018/19 o gymharu â 2017/18 a 2016/17 gan ddod â rhaniad bron yn gyfartal rhwng ymgeiswyr benywaidd a gwrywaidd.

Ymgeiswyr am Swyddi: Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfeiriadedd Rhywiol	2018/19
Heterorywiol	81% (480)
Lesbiaid, Dyn/ Menyw Hoyw, deurywiol neu Arall	5% (30)
Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan	14% (80)

Sylw: Dechreuodd yr Awdurdod gasglu'r data hwn o fis Ionawr 2018 ar gyfer ymgeiswyr am swyddi o ganlyniad nid oes data tebyg ar gael ar gyfer 2017/18. Mae'n gadarnhaol gweld fel llinell sylfaen bod 5% o ymgeiswyr wedi'u nodi fel LHD neu Arall.

Amrywiaeth Gweithlu

Data o system Pobl y Parc. Gall staff gyrchu, adolygu a chwblhau eu data monitro cydraddoldeb yn uniongyrchol ar y system.

Nifer y Gweithwyr

2016/17	2017/18	2018/19
150	150	150

Sylw: Nid yw hyn yn cynnwys staff tymhorol.

Gweithwyr: Oedran

Oedran	2016/17	2017/18	2018/19
20 mlynedd ac iau	* (*)	* (*)	* (*)
21 - 30	13% (20)	7% (10)	7% (10)
31 - 40	20% (30)	13% (20)	13% (20)
41 - 50	27% (40)	33% (50)	40% (60)
51 - 60	27% (40)	27% (40)	27% (40)
60 a throsodd	13% (20)	13% (20)	13% (20)
Gwell gen i beidio â dweud / Heb ei	* (*)	* (*)	* (*)

ddatgan			
Sylw: Bu gostyngiad o yn y % o pobl dan 41 oed yn y gweithlu o 33% yn 2016/17 i 20% yn 2017/18 a 2018/19. Dim ond 7% o'r staff yn 2017/18 a 2018/19 a oedd o dan 31 oed. Mae angen gwaith pellach i edrych ar lwybrau mynediad i gyflogaeth gyda'r Awdurdod ar gyfer swyddi nad ydynt yn dymhorol i bobl dan 31 oed. Mae 40% o'r staff dros 50 oed, heb fawr o newid dros y tair blynedd. Bu cynnydd yn nifer y bobl yn y grŵp oedran 41-50 o 27% yn 2016/17 i 40% yn 2018/19.			

Gweithwyr: Anabledd

Anabledd	2016/17	2017/18	2018/19
Wedi nodi fel un sydd ag anabledd	7% (10)	7% (10)	* (*)
Wedi nodi fel un sydd heb anabledd	60% (90)	67% (100)	73% (110)
Gwell gen i beidio â dweud / Heb ei ddatgan	40% (60)	27% (40)	27% (40)

Sylw: Bu gostyngiad yn nifer y gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd rhwng 2017/18 a 2018/19.

Gweithwyr: Ethnigrwydd

Ethnigrwydd	2016/17	2017/18	2018/19
Gwyn	67% (100)	80% (120)	73% (110)
Ethnigrwydd Arall	* (*)	* (*)	* (*)
Gwell gen i beidio â dweud / Heb ei ddatgan	33% (50)	26% (40)	20% (30)

Sylw: Bu gostyngiad yng nghyfran y gweithwyr sy'n darparu'r wybodaeth hon. Lle mae'r gweithwyr wedi darparu data, ni fu newid dros y tair blynedd yng % y gweithwyr sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig heb fod yn wyn. Mae hyn yn cyfateb i'r nifer isel o ymgeiswyr am swyddi gan bobl sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig heb fod yn wyn. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd gwaith cynhwysol er gwaethaf y diffyg mewn amrywiaeth ethnig ac yn edrych ar sut y gall gynyddu ceisiadau am swydd gan bobl o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn.

Gweithwyr: Crefydd

Crefydd	2016/17	2017/18	2018/19
Dim Crefydd/ Cred	20% (30)	33%(50)	33% (50)
Cristongaeth	27% (40)	27% (40)	33% (50)
Crefydd/ Cred Arall	* (*)	* (*)	* (*)
Gwell gen i beidio â dweud / Heb ei ddatgan	47% (70)	40% (60)	33% (50)

Sylw: Bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n darparu'r wybodaeth hon. Mae mwyafrif o'r staff naill ai heb unrhyw grefydd neu o'r ffydd Gristnogo. Roedd 3% o'n ceisiadau am swydd yn 2018/19 gan bobl a oedd yn uniaethu â chrefyddau eraill. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd gwaith cynhwysol i bobl o bob crefydd neu sydd heb unrhyw grefydd o gwbl.

Gweithwyr: Rhyw

Rhyw	2016/17	2017/18	2018/19
Menyw	47% (70)	47% (70)	47% (70)
Gwryw	53% (80)	53% (80)	53% (80)
Gwell gen i beidio â dweud / Heb ei ddatgan	* (*)	* (*)	* (*)

Sylw: Ni fu unrhyw newid yn % y gweithwyr benywaidd a gwrywaidd ers 2016/17, ac mae gan yr awdurdod ychydig yn fwy o weithwyr gwrywaidd na gweithwyr benywaidd.

Gweithwyr: Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfeiriadedd Rhywiol	2016/17	2017/18	2018/19
Heterorywiol	53% (80)	60% (90)	67% (100)
Lesbiaid, Dyn/ Menyw Hoyw, deurywiol neu Arall	7% (10)	7% (10)	7% (10)
Gwell gen i beidio â dweud / Heb ei ddatgan	47% (70)	40% (60)	33% (50)

Sylw: Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n darparu'r wybodaeth hon. Mae nifer y gweithwyr sy'n nodi eu bod yn LHD neu eraill wedi aros yn gyson rhwng 2016/17 a 2018/19. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn hyrwyddo amgylchedd cynhwysol i staff sy'n nodi eu bod yn Lesbiaid, yn Hoyw, yn Ddeurywiol neu rywedd Arall.

Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn

2016/17	2017/18	2018/19
20	10	10

Sylw: Mae'r data hwn wedi'i ddadansoddi yn fewnol gan yr adran Personél i weld a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Mae'r set data yn rhy fach i adrodd ymhellach ar draws unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig.


Proffil gweithlu yn erbyn y Math o Contract/ Patrwm Gwaith: Rhyw

Math o Contract/ Patrwm Gwaith	Menyw		Gwryw		Cyfanswm	
	17/18	18/19	17/18	18/19	17/18	18/19
Llawn Amser	30	30	60	60	90	90
Rhan Amser	50	50	20	20	70	60

Parhaol	60	60	60	60	120	110
Dros-dro	20	20	20	20	40	40

Sylw: Mae'r Awdurdod yn cefnogi gweithio oriau hyblyg ac mae gan yr Awdurdod weithwyr sy'n gweithio ystod eang o batrymau gwaith o ran nifer yr oriau ar wahanol ddiwrnodau. Mae nifer o'r staff yn gweithio ar gynllun hyblyg, a gall pob aelod o staff ofyn am drefniadau gweithio hyblyg megis pythefnos 9 diwrnod; mae ceisiadau fel arfer yn cael eu cymeradwyo. Mae'r staff yn symud i mewn ac allan o drefniadau gweithio hyblyg wrth i amgylchiadau newid.

Proffil y Gweithly yn erbyn Graddfeydd - Rhyw



Sylw: Mae'r Awdurdod yn cyflogi pobl mewn ystod eang o swyddi, a nifer ohonynt ag ond un deiliad swydd ac felly nid yw monitro yn ôl 'swydd' yn cael ei wneud. Rydym wedi cyfuno Graddau i atal adnabod unigolion ac ystumio ffigurau wrth eu talgrynnu i fyny neu i lawr. Mae'r Awdurdod yn talu lwfans byw atodol i ddod â chyflogau i lefel sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw sy'n effeithiar swyddi Graddfa 1 i Raddfa 2. Nid oes unrhyw elfennau tâl sylweddol eraill sy'n daladwy ar ben y cyflog ar y raddfa. Nid yw'r ffigur yn cynnwys staff tymhorol a delir yn ôl taflen amser ac nad ydynt yn gyflogedig. Ar hyn o bryd mae gan ddau weithiwr rolau deuol. Mae'r Awdurdod yn gytbwys ar draws pob gradd gyflog ac eithrio ar Raddfa 4-6 lle mae mwy o Wrywod o gymharu â Benywod.

Cyfleoedd Gwella: Hyfforddiant a Dadansoddiad Cyflog

Er mwyn galluogi dadansoddiad pellach yn erbyn cyfleoedd hyfforddi mae angen gwaith i wella dulliau recordio hyfforddiant yn yr Awdurdod. Bydd gwaith dadansoddi Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn cael ei wneud fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb a nodi a oes angen amcan penodol ar fwllch cyflog rhwng y rhywiau yn y cynllun diwygiedig.

Cysylltwch â ni:

Gellir anfon sylwadau ar y dogfenu hon gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk gan roi Cynllun Corfforaethol fel pwnc neu gellir ysgrifennu at APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro, SA72 6DY.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, h.y. testun hawdd ei ddarllen, testun mawr, sain, a fyddech gystal â chysylltu â gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk / 01646 624800